

# CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 284 - 60c  
Mehefin 2010

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Cwrdd  
â'r Maer  
newydd**



Tudalen 6

**Cadwyn  
cyfrinachau  
yr ifanc**



Tudalen 14

**Eisteddfod  
yr Urdd  
1959**



Tudalen: 5

## Pen-blwydd Ysgol Llanllwni yn 140



*Edrych yn ôl,  
edrych ymlaen a dathlu!*





# Te Fictorianaidd Ysgol Llanllwni

Adroddiad ar dudalen 10



Rhai o gyn ddisgyblion yr ysgol a gafodd eu geni yn negau, ugeiniau a thriedegau'r ganrif ddiwethaf.



Staff a rhieni'r ysgol a fu yn gweini wrth y byrddau yn eu gwisgoedd Fictorianaidd.



Enillwyd cystadleuaeth arlunio ar gyfer Bagiau nwyddau gan Rhian Glasson, Alwyn Evans (a Gabi Wilton a oedd yn absennol) a chyflwynwyd y gwobrau iddynt gan y Llywydd Rachel Thomas.



Rachel Thomas, Llywydd y Dydd yn derbyn Plât y dathlu o law Caryl Evans, Cadeirydd Cymdeithas Rhieni.



# Pwy yw pwy?

## Golygydd:

Mehefin a Gorffennaf: Marian Morgan, Glasfryn, Drefach 480490  
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies,  
Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd: Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349  
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590  
e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipyddion Nia Davies, Maesglas 480015  
Joy Lake, Llambled

## Gohebwy'r Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambled	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamllwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

# Beth yw beth?

## Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349  
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfryn, Drefach 480490  
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015  
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856  
Ffotograffydd Tim Jones, Llanllwyn, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: [www.clonc.co.uk](http://www.clonc.co.uk) os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddoe yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: [www.facebook.com/clonc](http://www.facebook.com/clonc)
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siopapurau Caxton Hall, Llambled.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: [golygydd@clonc.co.uk](mailto:golygydd@clonc.co.uk)
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i [ysgrifennydd@clonc.co.uk](mailto:ysgrifennydd@clonc.co.uk)
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

## Siprys

Mae'n rhyfedd paratoi am rifyn newydd o'n Papur Bro cyn fod inc yr un diwethaf wedi sychu yn iawn. Dyna fe, mae'n rhaid gwneud ymdrech i gynorthwyo Eisteddfod yr Urdd. Mae llawer o weithwyr Clonc yn flaenllaw gyda threfniant y Steddfod.

## Ffigyrau Gwrando.

Mae'r BBC wedi bod yn ymhyfrydu yng nghynnydd y rhai sy'n gwrando ar Radio Cymru yn ystod y mis diwethaf. 'Does dim llawer o waith meddwl o ble mae'r gwrando-awyr yma wedi dod. Oes rhywun wedi dweud wrth y gorfforaeth fod Radio Ceredigion i bob pwrpas wedi peidio a bod? Na, mae gwrandoawyr cyson ein gorsaf leol wedi troi yn naturiol, a diau maen nhw sy'n rhannol gyfrifol am y cynnydd. Un cwestiwn sy'n poeni llawer yw, beth sy wedi digwydd i'r cyfoeth o raglenni recordiwyd gan y cwmni? Gobeithio fod y rhain mewn archif ddiogel yn rhywle – maent yn rhy werthfawr i'w colli.

## Lecsiwn.

Do, mae'r pleidleisio drosodd ond y dadlau yn dal i fodoli.

Beth am ddaliadau y gwahanol bleidiau? O edrych ar y ddwy blaid sy'n llywodraethu, a chofio am yr addewidion wnaethpwyd cyn y lecsiwn, mae'n rhaid fod llawer o'r addewidion wedi'u rhoi o'r neilltu, neu ni fedra'r llwynog a'r iâr fyth gyd-fyw. Amser a ddengys – bydd amser digon anodd o flaen y llywodraeth a ninnau fel trethdalwyr. Pob hwyl iddynt.

## Rheolau Twp!

Nid yw'r gair 'twp' yn ddigon cryf yn aml. Darllen erthygl yn 'Golwg' y bore yma am broblem merch o Grugybar sy'n methu cael ei chludo i Ysgol Uwchradd Llambled am fod y Cyngor Sir yn dweud fod y ferch yn byw yn nhalgylch ysgol Pantycelyn. Mae bws sy'n cludo plant i Lamed, yn mynd drwy'r pentre yn barod – deallaf fod y rhieni yn barod i dalu ond na, yw'r ateb. Oes na ddim sôn am symud Ysgol Pantycelyn i Landeilo, a fydd hyn yn newid y dalgylch? Rwy'n cael ar ddeall fod rhai rhieni wrth gofrestru plentyn, yn rhoi cyfeiriad perthynas o fewn dalgylch yr ysgol, felly yn twyllo, ond yn dod i ben a chael y maen i'r wal. Mae gennym ormod o reolau, a dim un rheol yn rhoi blaenoriaeth i synnwyr cyffredin!

## Tâl am 'gloncan'.

Doeddwn i ddim yn golygu mynd i'r archfarchnad yn Llambled. Y wraig oedd yn siopa a minnau'n aros yn y car. Cofiais wedyn fod y bagiau siopa yn dal i fod yn y car. Mater o funud oedd mynd a nhw i mewn i'w llenwi. Ie, y drychineb o gwrdd â ffrind, rhoi'r byd yn ei le am rhyw bum munud cyn mynd am y car. O na! cwrdd â chymydog – clonc hir arall cyn mynd am y car. Tri neu bedwar yn sefyll wrth fy nghar i ac yn pwyntio at y tocyn ar ffenest flaen y car a chwerthin. Nid chwerthin am fy mhen i oeddynt – roeddent hwythyau yn yr un cart. £15 yr un o ffein. Clonc gostus.

CLONCYN

# Dyfarniad y Darllenydd

## Llwybr Arfordir Ceredigion

Llyfr a ddaeth i law Clonc yn ddiweddar oedd 'Llwybr Arfordir Ceredigion'. Llyfr dwyieithog yn llawn lluniau apelgar gan y ffotograffydd Phil Jones, Aberystwyth o olygfeydd ar hyd y llwybr hyfryd hwnnw.

Am drigain milltir o Ynys-las ger aber afon Dyfi yn y gogledd, hyd at draeth Gwbert ger aber afon Teifi yn y de, caiff y cerddwr ei gyfarch gan brydferthwch ar ryw ffurf neu'i gilydd. Daliodd y detholiad hwn o ffotograffau beth o'r ceinder hwnnw gan ei gynnig fel hyfrydwch pur i'r rhai a brofodd y llwybr eisoes, ac fel addewid i'r rhai sydd eto i wneud hynny.

I'r rhai ohonoch chi sy'n hoff o gerdded neu'n ymfalchïo ym mhrydferthwch arfordir Ceredigion, byddwch chi wrth eich bod â'r llyfr hwn. £19.99 yn eich siop lyfrau lleol.

## Ymlaen â'r Sioe



Ceredigion yw'r sir sy'n noddi'r Sioe Fawr yn Llanellwedd eleni a chyhoeddi'r gyfrol hon i dalu teyrnged i brif enillwyr y sioe sy'n hanu o'r sir. Yr awduron yw Charles Arch a Lyn Ebenezer.

Mae cyfraniad y Cardi i'r Sioe Frenhinol yn un hael dros ben. A dathliad o'r cyfraniad hwnnw yw'r llyfr dwyieithog hwn. Ond, yn anad dim, dyma gyfle i glywed straeon y bobol hynny sy'n hoelion wyth cefn gwlad Ceredigion.

Ceir rhagair bywiog gan lywydd y sioe eleni sef Dai Jones Llanilar a diddorol yw darllen hanes y cyn llywydd a'r cyn aelod seneddol Geraint Howells drwy lygaid ei wraig y Fonesig Olwen Howells.

Mae'n llyfr hynod ddiffr i ddarllenwyr Clonc oherwydd cyfeirir at nifer fawr o selogion Clonc ynddo. Ceir pennod dan y teitl 'Deryn ymhlith yr Adar' am Picton Jones, Llanwnnen (gynt) a'i lwyddiant gyda'r ffowls a phennod dan y teitl 'Y Wobr i Warffynnon am yr Wythfed Tro' am yr holl glod a gafodd Dai Davies, Silian dros y blynyddoedd. Ceir lluniau a chyfeiriadau at Andrew Jones, Pentresion; Berwyn Hughes, Cwmhendryd; A ac E Griffiths, Llangybi; David Jones, Alltgoch, Cwrtnewydd; Ronald a Sue Jones, Gorsgoch; Elfyn a Sharon Morgan, Glwydwern, Gorsgoch; Geraint Rees Lloyd Llanwenog; Huw Evans, Alltgoch ac eraill.

£12.99 yw pris y llyfr. Yn werth bob ceiniog ac yn agoriad llygaid wrth ddarllen a sylweddoli cyfraniad enfawr y Cardis i'r Sioe Fawr.





## MAI

- 29 Carnifal Cwmann ar gae'r pentref.  
31 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar stad Llanerchaeron.

## MEHEFIN

- 1-5 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar stad Llanerchaeron.  
11 Côr Cwmann yn trefnu Cyngerdd yn Neuadd Felinfach am 8.00y.h. gyda Robin Lyn Evans, Kees Huysmas, Dai Jones a Angela Rogers Davies. Llywyddion - Dai ac Alwena Williams, Gwastod. Elw at Apêl Sioe Cardis.  
11+12 Barbiciw a Gŵyl Gwrw yn Llanfair Clydogau.  
14 Bingo yn y Clwb Rygbi, Llanybydder am 8y.h. Elw tuag at Gancr y Fron.  
12 Ball C.Ff.I. Cwmann, Prifysgol Llanbedr Pont Steffan.  
12/13 Gŵyl Gwrw a Barbiciw yn Llanfair Clydogau.  
18 Cyngerdd yn Ysgol Llanllwni am 7y.h. Eitemau gan aelodau C.Ff.I. Llanllwni, cyn ddisgyblion a disgyblion presennol yr ysgol. Mynediad £2.  
21 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf.  
22 Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8y.h. Elw tuag at Ysgol Feithrin Llanybydder.  
25 Rasys Sarn Helen yn Ysgol Gynradd Felinfach.  
26 Diwrnod Hwyl Ysgol Llanwenog am 1:30y.p. Llywydd: Mrs Margaret Evans, Felinfach.  
30 Trip Henoed Llanwnnen i Sir Benfro. Gadael am 9:00y.b. Enwau i Gwen Davies, Gomer Lewis neu Ann Hughes.

## GORFFENNAF

- 2 Ffair Haf Ysgol Llanwnnen am 4:00y.p.  
3 Cangen NSPCC Llanybydder yn trefnu Dawns Haf yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, am 7.30y.h. Tocynnau: Ann Smith 01570 480306 neu Linda Davies 01570 480054. Yr elw tuag at yr NSPCC.  
3 Band 'Free Beer' a Dai Jenkins yn Llew Du Llanybydder am 8y.h. Tocyn £6. Elw tuag at Ysgol Llanllwni.  
4 Cyngerdd gan Gôr Meibion Llanymddyfri yng Nghapel Maesffynnon, Llangybi am 7:30y.h. Elw tuag at y capel.  
10 Mabolgampau Cwrtnwydd ar gae'r ysgol am 1:00y.p. Croeso cynnes i bawb.  
10 Diwrnod Hwyl, Cartref Nyrsio Alltymynydd, i ddechrau am 12y.p. Cystadleuaeth Tynnu'r Gelyn, Sioe Gwn, stondinau amrywiol. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r cartref ar 01570 480208.  
11 Taith Gerdded a Ffair Haf Ysgol Carreg Hirfaen yng Nghae Pentref Cwmann. Y daith i ddechrau am 1.00y.p.  
17 Gŵyl y Pentref yn Llanfair Clydogau.  
19 - 22 Sioe Frenhinol Cymru - Sioe'r Cardis.  
24 Ffair Fwyd Llambod.

## AWST

- 13 Sioe Llambod.  
14 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.

## MEDI

- 4 Sioe Llanycrwys  
11 Ffair Ram, Cwmann ar gae'r pentref.



Joshua Hamza o Ysgol Llanllwni wedi iddo dderbyn y felt oren sef yr ail gam mewn 'kickboxing'.



Holly Cooper o Ysgol Llanwnnen wedi iddi ennill y wobwr gynaf yn Serameg Bl 3 a 4 yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd eleni.

# Bag Papurau Bro

am ddim i'r 100 aelod newydd cyntaf sy'n ymuno â Chlwb Clonc a thalu drwy archeb banc.



## CEFNOGI CLONC 2010

Y ffordd orau a'r mwyaf ymarferol o gefnogi eich papur bro yw trwy ymuno â Chlwb CLONC. Rydym yn ddibynnol iawn ar yr incwm. Diolch am gefnogi.

## CLWB CLONC

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn talu drwy archeb banc. Mae'n hawdd. Llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr Ysgrifenyddes er mwyn hawlio'ch bag siopa newydd am ddim.

### Archeb Banc yn unig

At Rheolwr Banc y / Manager of .....

Cangen / Branch .....

Wedi derbyn yr archeb hon, telwch i FANC NATWEST Llambod 53 61 42 CLWB CLONC 03451526 y swm o £5, £10, £15, £20\* NAWR ac yna ar y dydd cyntaf o Orffennaf bob blwyddyn nes y rhybuddiaf chi ymhellach, telwch y swm o £5, £10, £15, £20

Enw llawn / Name .....

Cyfeiriad Llawn / Address .....

Rhif y cyfrif / Account no .....

Dyddiad / Date ... / ... / 2010

Arwyddwyd / Signed .....

\*\* Rhowch gylch o amgylch y swm y dymunwch roi\*\*  
neu...

os am dalu ag arian parod neu siec, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr ysgrifenyddes cyn diwedd mis Gorffennaf os gwelwch yn dda.

Amgaeaf tâl o £5, £10, £15 neu fwy.  
\*\*\*\* Arian / Siec yn daliadwy i 'Glwb Clonc' \*\*\*\*

Enw: .....

Cyfeiriad: .....



*D & C Rallying*



Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664  
CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math  
a pharatoi eich car ar gyfer MOT

\* Teiars o bob math \* Olew \* Filteri \* Batris \* Brêcs \*

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni  
Tanrhos, Cwrtnwydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN





**Gwyn Lewis**  
Cyf

Cyflenwi a gosod:  
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,  
Cladinau Wal,  
yn ogystal â Gwelyau,  
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont  
LLANBEDR PONT STEFFAN  
Ffôn a Ffacs: 01570 423984  
Adref: 01570 423349

## Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer  
pob achlysur'*

\* Cacenau pen-blwydd gyda llun  
(ffotograff)

\* Bwffe mawr neu fach

\* Dantethion i de

\* Pwdinau

\* Arlwyd ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os  
ydych yn dioddef o'r canlynol:

\* Blinder / diffyg egni

\* Meigrin

\* Sciatica

\* Irritable Bowel Syndrome

\* Menstrual problems

\* a mwy

Os am ragor o wybodaeth  
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

## Tim Jones



**Ffotograffydd**

Llainwen, Rhodfa Glynhebog  
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol  
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A  
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.


Os hoffech fwy o wybodaeth  
mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Arnold Davies**  
**Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llanbedr

☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

## Lle aeth pawb?



Merched y Ddawns Flodau o Ysgol Gynradd Ffynnonbedr yn Eisteddfod yr Urdd Llanbedr Pont Steffan 1959: Rhes gefn o'r chwith - Desnee Lloyd, Eirina Jones, Rosemary Evans, Valerie Parry, Myfi Hopkins, Anne Evans, Carolyn Roberts a Julie Thomas. Rhes flaen - Gillian Evans, Eirlys James, Dilys Jones, Dawn Evans, Yoland Jones, Karalee Rees, Enid Hopkins, Gwyneth Williams a Rhian Gee. Miss Mary James yr athrawes, ond pwy oedd y delynores? Danfonwch yr ateb at y golygydd. Diolch i Gwyneth Evans, Gwladethe am y llun.

## O Siambr Cyngor Sir Gâr gan Pryfyn



Melinau gwynt yw'r pwnc sy'n cael sylw y mis hwn. Efallai i chi hefyd gael gwahoddiad i ymweld ag arddangosfa Npower ym Mhencader ac ym Mrechfa. Gweld yr arddangosfa, cyfle da i leygwr bwysu a mesur y manteision honedig yn erbyn yr anfantais honedig a chyfle i holi cwestiynau – dyna oedd y disgwyliad. Ac roedd yn ddisgwyliad digon teg gan fod y cynlluniau hyn yn mynd i effeithio ar bob un o gymunedau gwledig gogledd Sir Gâr. Ond ym Mrechfa, yn ôl a ddeallodd Pryfyn, dim ond y rheini oedd yn brolio manteision cynllun NPower a gafodd le yn y neuadd. Roedd hi'n brynhawn garw a chadwyd y rheini oedd yn foneddigaidd foesgar am gynnig gweledigaeth wahanol i eiddo Npower yn y gwynt a'r glaw y tu allan i ddrws y neuadd.

Doedd dim cyfle i drafod yn synhwyrol ym Mrechfa. Dealla Prifyn mai haerllug a sarhaus oedd agwedd cynrychiolwyr y cwmni ynni. Yr unig ateb a gafwyd i un cwestiwn digon rhesymol oedd bod yr unig berson a allai ateb y cwestiwn hwnnw wedi penderfynu peidio â dod i Brechfa! Yr ateb i gwestiwn arall ar bwnc y difrod a achosid i'r tirwedd wrth gloddio sylfeini i'r melinau ac i'r pylonau cawraidd oedd hwn: dyw hynny ddim busnes i chi!

Prif ddadl cwmni datblygu Npower, hyd y dealla Pryfyn, yw bod gan ein cenhedlaeth ni gyfrifoldeb i'r genhedlaeth a fydd yn ein dilyn ni. Bydd y melinau gwynt, fe honnir, yn llenwi bwlch am yr ugain mlynedd nesaf tra bod ffynonellau eraill o ynni adnewyddol yn cael eu datblygu. Mae'n ddadl digon grymus tan ichi gofio y bydd Npower yn gwerthu'r trydan am bris manteisio i'r cwmni sy'n eich cyflenwi chi a fi. A dirwyir y cwmni cyflenwi yn drwm gan Ofgem oni fyddant yn prynu. Mae'n dreth flynyddol o £1 biliwn sydd eisoes wedi ymddangos ar ein biliau ni'r defnyddwyr. Yn ôl amcangyfrif Ofgem ei hun, bydd yn £4 biliwn erbyn 2020.

Mae amryw fathau o ynni adnewyddol – y llanw, y tonnau, treulyddion 'anaerobig' – ond yng ngogledd Sir Gaerfyrddin ynni melinau gwynt yn unig sy'n cael blaenoriaeth. Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r geiriau 'ôl-troed carbon'. Os pwysir ar felinau gwynt yn unig i gyflenwi ein anghenion ynni tua'r dyfodol, bydd rhagor eto o'r melinau anferth hyn, angenfild technolegol sy'n cyfateb i'r deinosoriaid gynt, yn troedio ein cefn gwlad. Ac yn ofer droedio ein cefn gwlad, oherwydd yn ôl yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd byddai cyflenwi dim ond 5% o anghenion ynni Prydain yn y dull hwn yn golygu llenwi 10% o dirwedd Prydain â melinau gwynt. Mae hynny'n gyfystyr â dyblu nifer y melinau gwynt sydd yn y byd.

Onid yw'n berygl real, felly, mai rhyfeddodau gwag yn unig fydd melinau gwynt Brechfa i genedlaethau'r dyfodol – rhyfeddodau o ran maint a rhyfeddodau oherwydd eu bod nhw, fel y deinosoriaid hwythau, wedi methu ag ymgodymu â galwadau cyfoes?

Yn y rhifyn diwethaf o CLONC tynnodd Pryfyn sylw at y ffaith bod 'Newyddion Cymuned', papur Cyngor Sir Gâr, yn colli cyfle i drafod materion sy'n effeithio ar gymunedau'r sir. Prin yw'r rheini yn ein plith a all hawlio arbenigedd ym maes ynni melinau gwynt, ond gan fod y dechnoleg hon ar drothwy ein drws ac yn mynd i effeithio ar bob copa walltog ohonom yn yr ardaloedd hyn, pam nad yw 'Newyddion Cymuned Sir Gâr' am drafod y pwnc.

Gwrthod trafodaeth dryloyw wnaeth cwmni Npower ym Mrechfa yr wythnos o'r blaen. Ai'r rheswm am hyn yw bod Npower yn gwybod yn iawn fod llywodraeth Llundain bob amser wedi bachu, doed a ddelo, pob trysor mae Llywodraeth Llundain wedi'i lygadu?

Dim ond gofyn y cwestiwn.



# Dewch i gwrdd â'r Maer newydd

Ar un llaw, wyneb newydd i rai, gan nad yw Maer ifanc newydd tref Llanbedr Pont Steffan yn enedigol o'r ardal hon. Ond ar y llaw arall wyneb cyfarwydd gan ei fod wedi ei daflu ei hunan yn bendramwnwgl i weithgarwch y dref ers sawl blwyddyn bellach.

Un o ardal Merthyr Tydfil yn wreiddiol yw'r Cyng. Rob Phillips sydd bellach yn byw yn Barley Mow, Llanbedr Pont Steffan. Ganwyd ef ym mhentref Trelewis cyn symud i Ben-coed ger Pen-y-bont ar Ogwr.

Tra yn Ysgol Gyfun Pen-coed, ysgogwyd ei ddiddordeb i ddysgu Cymraeg, a phenderfynodd barhau i astudio Cymraeg yn y brifysgol. A dyma ddechrau ar briodas gadarn â'i ardal fabwysiedig - daeth yn fyfyrwr brwdfrydig i Brifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan ym 1995.

Wrth i chi siarad ag ef heddiw, gallech feddwl ei fod wedi siarad Cymraeg erioed. Mae'n hollol gyffyrddus yn siarad Cymraeg ac yn siarad fel un ohonom ni yn yr ardal hon gyda thafodiaith hyfryd Ceredigion yn llifo'n ddirwyst dros ei wefusau. Ond magwyd ef mewn cartref hollol ddi-gymraeg. Aeth i ysgolion cyfrwng Saesneg. Does dim gair o Gymraeg gan ei rieni a does dim cysylltiad teuluol ganddo â'r ardal hon. Eto i gyd gallech ddadlau ei fod yn fwy o Gardi o ran iaith ac egwyddor na llawer o Gardis brodorol.

Tra yn y coleg yn Llambled, ymdoddodd i fywyd yr ardal. Yn hytrach na chuddio tu ôl i furiau'r coleg fel llawer iawn o'i gyd fyfyrwyr, gwelodd fod siarad Cymraeg â phobl y dref o fudd iddo. Efallai bod rhai ohonoch yn ei gofio yn gweithio yn siop Spar, Llambled. Tra yn y coleg bu'n byw yn Neuadd Simon Evans ac yn Nheras yr Orsaf. Efallai bod rhai ohonoch yn cofio iddo sefyll fel ymgeisydd Plaid Cymru yn 1999 yn etholiadau'r cyngor sir.

Does dim angen dweud iddo lwyddo i ennill gradd anrhydedd yn y Gymraeg. Hoffai dalu teyrnged i Dr Christine Jones a fu'n gymaint o ddylanwad arno ac am arweinyddiaeth y diweddar Ddr Cathryn Jenkins. Aeth Rob ymlaen wedyn i astudio fel myfyriwr ôl radd a gweithio rhan amser yn yr Adran Gymraeg, ac erbyn hyn mae ganddo MPhil mewn Hanes a'r Gymraeg. Arbenigodd ar effaith gorfodaeth filwrol ar y gymdeithas yn Sir Gaerfyrddin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Byddai cynnwys ei ymchwil yn siŵr o fod o ddiddordeb i ddarlennwyr Clonc rhywbryd!!

Yn 2001, daeth yn amser iddo chwilio am swydd, a phenderfynu aros yn Llambled y gwnaeth Rob. Mae'n talu teyrnged i bobl yr ardal am eu cefnogaeth. Pwysleisia nad person y ddinas yw e a'i fod yn hollol gartrefol yn Llambled. Mae'n canmol yr ardal am yr holl gymdeithasau sydd yma.

Bu'n llwyddiannus wrth sicrhau swydd ymhlith 300 o weithwyr yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Bu'n gweithio yn Is Adran Digidol am bum mlynedd. Erbyn hyn mae'n gweithio yn Is Adran Derbyn. Rob sy'n gyfrifol am yr Uned Adnau Cyfreithiol. Ymhlith ei ddyletswyddau mae'n arwain tîm sy'n archifo gwefannau gan gynnwys gwefan Clonc. Mewn oes sy'n symud o gofnodi ar bapur i gyfathrebu ar y we ac ar e-bost, mae'r

Llyfrgell Genedlaethol yn ceisio dygymod â'r her o archifo digidol ar gyfer ymchwilwyr y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r Llyfrgell yn archifo rhyw wyth cant o wefannau.

Mae Rob yn dod â'i arbenigedd digidol nôl i Llambled gydag ef gyda'r hwyr. Mae'n aelod o Gyngor y Dref a'r Ford Gron ers 1999, ac ef sy'n gyfrifol am weinyddu gwefannau'r ddau sefydliad. Mae'n werth i chi ymweld â gwefan newydd Cyngor y Dref [www.lampeter-tc.gov.uk](http://www.lampeter-tc.gov.uk) sy'n hollol ddwyieithog. Mae'n cynnwys gwybodaeth am holl siopau a chyfleusterau'r dref ac yn cynnwys lluniau apelgar dros ben.

Rob sydd wedi llunio Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor. Rhyfedd meddwl bod rhaid cael rhywun o'r tu allan i'r ardal Gymraeg hon yn wreiddiol i Gymreigio'r Cyngor Dref. Ond braf gweld nad ar bapur yn unig y mae'r polisi. Yn y Seremoni Sefydlu Maer newydd a gynhaliwyd yn Hen Neuadd y Coleg yn ddiweddar, cynhaliwyd y cyfan yn Gymraeg a chyflogwyd cyfieithydd ar y pryd i gynorthwyo'r di Gymraeg oedd yno

gan gynnwys teulu'r Maer ei hunan. Dyma batrwm sy'n enghraifft dda i gyfarfodydd cyhoeddus eraill a gynhelir yn yr ardal hon.

Nid un i fod yn segur yw ein Maer newydd. Mae wrth ei fodd yn cerdded strydoedd y dref yn sgwrsio gyda hwn a'r llall. Mae'n mwynhau ei beint yn nhafarnau'r dref ac yn hoffi paned bach yng nghaffi Contis nawr ac yn y man.

Mae wedi bod yn weithgar tu hwnt wrth godi arian tuag at gynnal a chadw Pwll Nofio'r dref. Mae'n paratoi'r dogfennau ar hyn o bryd i drosglwyddo'r pwll i ddwylo'r awdurdod wrth iddyn nhw sefydlu un canolfan rhwng yr Ysgol Gyfun, Ysgol Ffynnonbedr, y Ganolfan Hamdden a'r Pwll Nofio. Gwna waith dyngarol hefyd a hynny gyda'r Ford Gron. Y prosiect diweddaraf yw datblygu'r ardd yng Nghanolfan Deulu'r dref.

Llwydda i ddarganfod amser ar gyfer parhau â'i ddiddordebau hefyd. Ymddiddora mewn Hanes Diwydiannol. Mae'n hoff iawn o ddarlennu am Weithfeydd Haearn Merthyr Tydfil. Mae cerdded yn mynd â'i fryd yn ei amser hamdden a gallech ei weld yn cerdded Llwybr Arfordirol Sir Benfro ar benwythnosau gyda'i gamera. Ei ffotograffau sy'n addurno muriau ei gartref yn Barley Mow.

Ar ben hyn oll, mae'n dilyn cwrs Llyfrgellyddiaeth ôl-radd diploma ym Mhrifysgol Aberystwyth mewn Astudiaethau Gwybodaeth. Ble mae e'n dod o hyd i amser dywedwch?

Ond pwy yw'r fenyw dlos sydd wrth ei ochr yn y llun? Beth am Faeres? Mae llawer iawn ohonoch yn ei hadnabod fel Delyth Morgans o Drefilan. Hi yw cariad Rob, os yw e'n gallu chwilio lle yn ei ddyddiadur ar ei chyfer. Mae Delyth wedi bodloni bod yn gonsort iddo am eleni tra ei fod yn gwneud swydd bwysig dros bobl Llambled fel Maer y Dref. Wedi'r cwbl, efallai mai dyma'r unig ffordd iddynt weld ei gilydd gan fod blwyddyn brysur iawn o'i flaen. Pob hwyl i Rob yn ei swydd anrhydeddus. Edrychwn ymlaen at weld y ddau yn nigwyddiadau'r dref.



## Mae eisiau person i ofalu a glanhau'r capel yn SOAR, LLANBED.

Am fanylion pellach cysyllter â Aneurin Davies, Tynffynnon neu unrhyw un o'r swyddogion.  
**Ffôn: 01570 422608.**

## CYDNABYDDIAETH

Bydd Mrs Ann Davies Pennaeth Ysgol Ardal Gymunedol Y Dderi, yn ymddeol ar ôl deugain mlynedd o ymroddiad i fyd addysg. Os hoffech gyfrannu at y tysteb, cysylltwch â Mrs Sheila Pugh Davies ar **01570 493 592** erbyn 5ed o Orffennaf.

## CÔR CARDI-GÂN [SATB]

yn chwilio am aelodau newydd.  
Ymarferion bob nos Fercher yn y Gwndwn, Thaetr Felinfach am 8:00y.h.  
Croeso i aelodau dros 18 oed yn unig.  
Am ragor o fanylion cysylltwch â  
**Brei Davies 07964 904309**

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocys yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw \_\_\_\_\_  
Cyfeiriad \_\_\_\_\_  
Cod post \_\_\_\_\_  
Rhif Ffôn \_\_\_\_\_

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmman, SA48 8ET  
**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**  
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

			5			2
4	5					6
		2	6		8	5
		8		3		2
			1		9	
2		3		6		7
		9	4		7	6
	8					5
7				1		

## Atebion Swdocw mis Mai:

Llongyfarchiadau i Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder a diolch i bawb arall am gystadlu: Janet Williams, Lynden, Cwmffrwd; Glenys Davies, Gellir Aur, Llanybydder a Mrs M Beynon, Castle Green, Llambled.

6	2	9	3	5	4	7	1	8
8	1	3	9	7	2	5	4	6
7	5	4	8	1	6	2	9	3
9	8	6	2	3	7	4	5	1
3	4	1	5	6	9	8	2	7
2	7	5	1	4	8	6	3	9
1	3	8	6	2	5	9	7	4
4	6	2	7	9	1	3	8	5
5	9	7	4	8	3	1	6	2

# Drefach a Llanwenog

## Ysgol Llanwenog



Bu nifer o ddisgyblion y dosbarth Iau yn cystadlu yng nghystadlueaeth Cwis Llyfrau'r Cyngor Llyfrau yn ddiweddar. Roeddent yn trafod y nofel "Dirgelwch yr Ogof" ac yn perfformio darn a oedd yn seiliedig ar y nofel "Mr Cadno Campus".



Derbyniodd y ddau grŵp feirniadaeth gadarnhaol iawn, ac roeddent wedi mwynhau cael perfformio ar lwyfan y theatr yn Felinfach. Daeth tîm blwyddyn tri a phedwar yn gyntaf yn eu categori hwy, ac felly'n derbyn yr anrhydedd o gael mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd genedlaethol fis nesaf. Pob lwc iddynt! Dymunwn fel ysgol ddiolch o galon i Mrs Linda Dafis a Mrs Marian Morgan am eu cymorth wrth baratoi'r disgyblion. Fel gwobr am eu gwaith caled byddwn yn mynd ar drip i ymweld â Chwmtedu a Llangrannog, a phwy a wŷr, efallai y gwelwn Siôn Cwilt yn cuddio yn un o'r ogofau!

Bu disgyblion yr Adran Iau yn ffodus iawn i fynd ar ymweliad i fwthyn gwyliau Ffosffald. Bu Eleri Lewis yn dysgu'r disgyblion am sut i fyw yn fwy gwyrdd, ac yn cynnig gwybodaeth am egni cynaladwy. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn cael sbecian o gwmpas y tŷ gwyliau hyfryd. Diolch yn fawr i Eleri am roi o'i hamser er mwyn cynnig profiadau newydd i'n disgyblion.

Erbyn hyn mae disgyblion dosbarth y Babanod wedi dechrau mynychu eu sesiynau nofio. Maent wrth eu boddau yn cael nofio a chwarae yn y pwll.

Fel ysgol, rydym wedi bod yn ffodus iawn i elwa o arbenigedd nifer o unigolion unwaith eto y tymor hwn. Mae disgyblion blynyddoedd 3 a 4 wrth eu boddau yn cael profiad o dderbyn gwersi coginio gyda Mrs Nia Evans. Maent eisoes wedi coginio cacennau bach ac maent yn edrych ymlaen at goginio bara soda cyn ddiwedd yr hanner tymor hefyd. Bu PC Gwyndaf Lloyd yn cynnal sesiynau am ddiogelwch ar y wê ac yn y parc gyda disgyblion blynyddoedd 4 a 5. Bu Janet Hawkins o gwmni "Bible Explorer" yn ymweld â ni er mwyn cynnal gweithdy am y Beibl. Gwnaeth y disgyblion elwa'n fawr o'r sesiwn gan fwynhau dysgu am amrywiol straeon o'r Beibl. Mae Mari Owen o gwmni Arad Goch hefyd wedi bod yn cynnal sesiynau drama gyda rhoi o'r disgyblion, ac maent wrth eu boddau yn cael y profiad o berfformio i'w gilydd. Mae Mrs L. Roberts, Ffosyffin, hefyd wedi bod yn cynnig hyfforddiant dawnsio gwerin i nifer o'r disgyblion. Mae'r disgyblion wedi mwynhau derbyn yr holl brofiadau amrywiol yma'n fawr iawn.

Rydym yn falch iawn bod Emma Herbert, disgybl o flwyddyn 3, wedi cael ei dewis i gymryd rhan yn sioe gynradd Eisteddfod yr Urdd 2010, sef 'Lledrith y Llew'. Rydym yn edrych ymlaen at gael ei gweld yn perfformio yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn Llanerchaeron.

Rydym wedi bod yn brysur yn yr Urdd eto'r tymor hwn yn plannu blodau er mwyn harddi'r ysgol. Diolch yn fawr iawn i'r rhieni sydd wedi bod yn ein cynorthwyo. Mae'r blodau yn edrych yn hyfryd. Diolch hefyd i Mrs Nia Evans sydd wedi bod yn arwain y disgyblion wrth iddynt blannu ein gardd lysiau.

## Clwb Cant Ysgol Llanwenog

Mis Mai 2010 – 1af Mary Jones £15, 2ail Ffion Evans £10, 3ydd Eileen Williams £5.

## Cylch Meithrin Gwenog:

Diolch i bawb a gefnogodd y bore o weithgareddau a gynhaliwyd yn festri Eglwys San Pedr yn Llambled dydd Sadwrn 15fed o Fai. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn.

## Eglwys Santes Gwenog

Wedi ymddeoliad y Parchedig Ficer Bill Fillery ym mis Ionawr, bu rhaid i'r dair Eglwys ddibynnu ar fodlonrwydd a charedigrwydd offeiriaid wedi ymddeol i gynnal gwasanaethau ar y Sul. Yr ydym yn ddiolchgar iddynt a gwerthfawrogwn eu harweiniad diffuant. Felly mae'n fraint i gyhoeddi fod gennym "Offeiriad dan Ofalaeth" wedi'i hapwyntio i'r dair Eglwys ym mherson y Parch Suzy Bale. Mae'n enedigol o 'Bath' ac yn un o grŵp o Offeiriaid yn Llambled. Mae'n rhugl mewn sawl iaith gan gynnwys y Gymraeg.

Cynhelir Gwasanaeth Sefydlu yn Llanwenog ar y 5ed o Orffennaf. Bydd yn derbyn cyfrifoldeb Eglwys Llanbydder, Llanllwni a Llanwenog. Edrychwn ymlaen i'w chroesawu a dymunwn bob bendith arni yn ei gweinidogaeth newydd.

Yng nghyfarfod y P.C.C. yn ddiweddar penderfynwyd cynnal y gweithgareddau canlynol; Helfa Drysor ar yr 2ail o Orffennaf; Gŵyl Flodau y penwythnos olaf yn Awst; Taith Gerdded ym Medi a phrynhawn o 'paned a chlone' yn Nhachwedd. Rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf o 'Clone'.

Dymunwn adferiad buan i bawb sydd yn anhwylyd, adref neu yn yr ysbyty. Cofiw'n arbennig am James Thomas, Prengwyn a Mrs Mali Evans, Rylwyn, sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd. Cydymdeimlwn hefyd â'i theulu gan iddynt golli tad yng nghyfraith a thadcu, sef Mr Dan Evans, Panrhew, Dihewyd. Cydymdeimlwn hefyd â theulu Mrs Viria Jones, Gellideg wedi iddynt golli ewythr, sef Mr Charles Evans.

Bydd enillwyr 'Clwb 100' yr Eglwys yn y rhifyn nesaf.

## Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Mrs Nancy Evans, Hazeldene ben-blwydd arbennig yn ystod y mis yn 80 oed. Iechyd da eto i'r dyfodol.

## 18 oed

Dathlodd Rhys Jones, Cefnrhuddlan-Uchaf ei benblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Gobeithio i ti fwynhau'r diwrnod.

## Llongyfarchiadau

Dymuniadau gorau i Eifion ac Yvonne Davies, Afallon ar ddod yn dadcu a mamgu i Alys Elin, merch fach i Emyr a Claire.

## Merch fach

Llongyfarchiadau i Cerys a Llŷr Jones, Glynfaes ar enedigaeth merch fach yn ystod y mis – Erin Mair. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

## Gwellhad Buan

Yn ystod y mis derbyniodd Mrs Megan Evans, Cefnrhuddlan Isaf law-driniaeth yn Ysbyty Treforus. Gobeithio eich bod erbyn hyn dipyn yn well.

## Y Gymdeithas Hŷn

Treuliwyd diwrnod dymunol iawn wrth i'r Gymdeithas fynd ar ail drip yr haf. Teithio 'dros y Mynydd Du i Frynman', a'r olygfa yn hyfryd i bob cyfeiriad. Aros am baned yng Nghanolfan y Mynydd Du, cyn mynd ymlaen i Borthcawl. Nifer yn dweud nad oeddynt wedi bod yno ers dyddiau triau'r Ysgol Sul! Cael prynhawn pleserus o gwmpas y siopau, ac yna'n cael tipyn o aer y môr; hwnnw'n codi archwaeth ar gyfer swper ar y ffordd adre. Y 'Buck Inn' ym Mhontlliw fu'n darparu'r bwyd, a phawb wedi mwynhau'r pryd yn fawr iawn.

Bydd y trip nesaf yn mynd i Aberhonddu ar Mehefin 9fed, a chael dwy awr hamddenol ar y gamlas. Enwau i Yvonne 480590.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad at Marna a Betty Evans, Blaendolau ar farwolaeth sydyn eu brawd Talfryn. Claddwyd ei weddillion ym Mynwent Capel Alltbylacca.

Rhifyn mis Gorffennaf  
Yn y Siopau  
**Gorffennaf 1af**  
Erthyglau i law erbyn  
**Mehefin 17eg**  
Newyddion i law erbyn  
**Mehefin 21ain**



# Cwmann


## Cydnabyddiaeth

Diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd gan y teulu wedi colli modryb annwyl, sef Bessie Griffiths, 1 Treherbert. Diolch hefyd am y caredigrwydd a estynnwyd iddi yn ystod ei gwaeledd gan ffrindiau a chymdogion.

Derbyniwyd rhoddion drwy law Gwilym Price, ei fab a'i ferched, tuag at Gronfa'r Cof-golofn yng Nghwmann, ac mae'r swm eisioes dros £400. Diolch yn fawr i bawb.

## Ysgol Carreg Hirfaen

Ar ddydd Sadwrn Mai 15fed aeth Sara Jones, Beci Harrison ac Alwyn Morgan i redeg yn erbyn llawer o blant ar hyd a lled Cymru ar gaeau Blaendolau, Aberystwyth ym mhencampwriaethau Trawsgwlad Cymru. Roedd hi'n ddiwrnod braf a'r tri wedi rhedeg yn arbennig. Daeth Beci yn 19eg yn ras Bl 4, Sara 14eg yn ras merched Bl 5 ac Alwyn yn 36ain yn ras bechgyn Bl 5. Da iawn chi.



Rydym wedi cael mwy o lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr i Morgan Lewis am ddod yn gyntaf yng nghystadlaeth creu gwefan ac i Iwan Williams am ddod yn drydydd yng nghystadlaeth creu darn o farddoniaeth.

I weld gwefan Morgan ewch i [www.rygbi.btik.com](http://www.rygbi.btik.com) Dyma ddarn barddoniaeth Iwan:

Mi welais môr ladron  
Â chist llawn o aur  
Yn ceginio y capten  
Da'r mêt mewn pair.

A neidr fawr werdd  
Mewn cwlwm tynn  
O gwmpas dau deigr  
Ac eliffant gwyn.

A fyny fry yn nyth y fran -  
Mae parot coch yn canu cân.  
Ac octopws pinc efo deg o freichiau  
Yn llywio y llong ar frig y tonnau.

A mwnei mawr main - topman y criw,  
Yn swingo o'r mein mast gan weiddi  
"whit whiw"

Ar globyn o granc sy'n sownd ym mhen ôl  
Y cogydd mawr tew - a gwmpodd o'i stôl.

Fe allech chi feddwl bod hi'n halibawl  
Ar gwch y mor ladron - ddihangodd o'r  
Sw!!!

Yn ystod y 12fed a'r 14eg o Fai bu Blynnyddoedd 5 a 6 ar drip addysgiadol i Ganolfan Dan y Wenallt ym Mannau Brycheiniog. Roedd digon i'w wneud fel chwilio am greaduriaid y pwll a chreaduriaid yr afon a'u cymharu. Roedd y gwaith yn ddiddorol, daliodd Dylan bysgodyn gyda'i ddwylo!!

Y diwrnod nesaf aethom am dro i weld rhaeadr. Roedd yn brydferth iawn a gan ein bod yn bihafio mor dda dywedodd Ron (trefnwr y daith) bod hawl gyda ni i fynd tu ôl y rhaeadr. Roedd yn anhygoel. Cawsom bicnic ar lan yr afon cyn gwneud ein ffordd nôl i weld ogof beryglus. Roedd rhai o'r plant braidd yn ofnus, ond fe aeth pawb mewn heb ffws a ffwdan.

Roedd y gwaith ar fore dydd Gwener yn sialens!! Roedd rhaid mynd mewn i grwpiau a chreu rhyw fath o gysgodfa rhag y gwynt a'r glaw. Ar ôl gorffen y 'glaw' roedd Mr. Evans a Paul â phiben ddŵr!! Roedd pawb yn steecs!!

Un o'r pethau gorau hefyd oedd y bwyd. Roedd Carol a Nigel yn paratoi bwyd blasus iawn ac fe roedd digon ohono. Roedd pawb wedi mwynhau a chael llawer o sbri wrth ddysgu, ond roedd pawb yn falch i ddod adref hefyd.

## Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Mrs. Betty Williams, Dolgwm Isaf (gynt) Esgaircrwys yn eu colled a'u galar o golli priod, mam a mam yng nghyfraith mor annisgwyl ac hefyd bu farw ei brawd ymhen ychydig ddyddiau ar ei hôl.

## Sefydliad y Merched

Ar nos Fawrth Mai 4ydd, teithiodd yr aelodau ar eu taith ddirgel i gyfeiriad Tregaron a dod i Bentref bach Sali Mali ym Mlaenpennal. Roedd croeso mawr yn ein disgwyl gan y perchennog Adrian Saville ac ar ôl gwylid fideo cawsom ein tywys o amgylch y pentref ac yna cyrraedd y caffi lle roedd pryd o fwyd blasus wedi ei baratoi ar ein cyfer. Yna cafwyd cyfarfod byr i ddilyn ac fe ddiolchodd Noleen i Adrian a'r staff am noson fendigedig ac i Gwyneth am drefnu y daith. Roedd pawb wedi mwynhau ac fe erys yn y cof am amser. Mis nesaf pawb i gwrdd yn y ganolfan am 7 o'r gloch ar gyfer ein taith gerdded.



# Ffarmers

## Marchnad Ffermwyr

Cynhelir Marchnad Ffermwyr yn Neuadd Bro Fana ar ddydd Sadwrn, y 5ed o Fehefin rhwng 10.00 y bore, ac 1.00 y prynhawn. Bydd yna stondinau cynnyrch lleol - o'r gegin a'r ardd - yn ogystal â chrefftau amrywiol. Mae croeso cynnes i chi alw heibio, a 'does dim tâl mynediad. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb i ddod â stondin, cysylltwch gyda Gwyneth Richards ar 01558 650276. Bydd y farchnad yn cael ei chynnal yn fisol ar y dydd Sadwrn cyntaf o'r mis.

## Ysbyty

Mae Ray Davies, Peronne, wedi derbyn triniaeth law-feddygol yn ddiweddar. Da ei gweld o gwmpas y lle mewn dim o amser. Daliwch i wella.

## Neuadd Bro Fana

Cynhaliwyd noson hyfryd yng nghwmni Idris Reynolds ar ddiwedd mis Ebrill yn cyflwyno rhan o'r hyn a adroddodd yng Ngwasanaeth Coffa'r Archdderwydd, y Prifardd, y Storiwr, y darlledwr a'r ffermwr Dic Jones. 'Roedd tyrfa luosog wedi troi i mewn, ac yn amlwg wedi mwynhau'r hanes a'r straeon. Diolch i Idris Reynolds ac hefyd i 'academi' am noddi'r noson.

## Cymanfa Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled

Cynhaliwyd y Gymanfa Flynyddol yng nghapel Salem ar ddydd Sul yr 16eg o Fai, gydag oedfa'r plant am 2.30, ac oedfa'r oedolion am 6.00. Croesawyd Elonwy Davies, Llanybydder yn ôl i'n harwain eleni eto, a chafwyd oedfa hyfryd yn y prynhawn, gyda'r plant ar eu gorau wedi paratoi yn drylwyr dan gyfarwyddyd medrus Janet Evans. Llywydd y prynhawn oedd Gwen Davies, Silian, a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Rhian Evans a Sulwen Richards o Salem. Cafwyd eitem gan blant Ysgol Sul Noddfa. Yn yr hwyr, llywyddwyd gan Ann Jones, Salem, a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Heulwen Lloyd, hefyd o Salem. Er nad oedd yno dyrfa fawr, cafwyd canu da yn oedfa'r hwyr. Yr organyddion oedd Avril Evans, Salem ac Elfyn Davies, Bethel, Cwm Pedol. Cynhelir Pwyllgor y Gymanfa yn Noddfa ar nos Lun, yr 28ain o Fehefin.

## Her Beicio Cymru

Mae Rhodri Davies, Troed y bryn ynghyd â Colin Charvis ac Aled Brew o Glwb Rygbi Dreigiau Casnewydd Gwent, ynghyd â nifer o gyfeillion yn mentro ar daith nodedig o 500 milltir o gwmpas Cymru mewn cyfnod o 8 diwrnod yn cychwyn ar y 5ed o Fehefin. Maent yn dechrau yng Ngwesty Bro Morgannwg ar y 5ed gan deithio

ar hyd y ffin gyda Lloegr, ar draws gogledd Cymru, dilyn yr arfordir o'r gogledd i'r de, gan gyrraedd yn ôl yng Ngwesty Bro Morgannwg ar y 12fed o Fehefin. Mae'r arian o godir yn cael ei rannu rhwng pedair elusen - Ysgol 'Spring Valley' yn Nairobi, Ambiwllans Awyr Cymru, Canolfan Gofal Cancr Felindre a Tŷ Gobaith. Mae nifer o ddigwyddiadau wedi eu trefnu ar hyd y daith, a gellir cael manylion llawn wrth ymweld â'r wefan - [www.cyclechallenge.wales.co.uk](http://www.cyclechallenge.wales.co.uk) Mae cyfle i ymuno â'r beicwyr ar rannau o'r daith.

## Rygbi

Mae rhai o fechgyn y pentre wedi profi cryn lwyddiant yn chwarae gyda thîmoedd rygbi y plant yn Llambled. Mae Rhodri Morgan 2 Bryntwrch, Rhys a Bryn Jones Sŵn y Nant, wedi ennill yng nghystadlaethau yn Llambled, Llanelli ac Aberystwyth yn ddiweddar. Mae'r 3 yn chwarae i dîm rygbi Llambled dan 7, 8 a 10 oed. Gwelir y lliniau ar y dudlaen gefn. Diolch i'r busnesau lleol sydd wedi noddi tîm rygbi Llambled dan 7 ac 8 oed.

## Cydymdeimlad

Blin gennym gofnodi marwolaeth Arwyn Evans, Llandeilo yn ddiweddar. 'Roedd yn adnabyddus i ni yn ardal Ffarmers fel 'Arwyn Maesuchaf', ac estynnwn ein cydymdeimlad i'w briod Shân, a'r plant Mathew a Sara, ynghyd â'r teulu yma yn Ffarmers a thu hwnt. Un arall o blant yr ardal i wynebu galar yn ddiweddar yw Nel Williams, Llambled a gollodd ei phriod Tegwyn. Estynnwn i Nel a'r teulu ein cydymdeimlad yn eu colled.

# Altyblaca

## Cydymdeimlo

Danfoniwr ein cydymdeimlad at Mrs Sarah Humphreys Jones a Teifi, Frongelli yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb annwyl iawn yn Mrs Nansi Evans, Cae meillion, Maes y meillion, Prengwyn wedi cystudd blin.

## Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Derrick Jones, Dorlan ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus ar ddechrau'r mis. Mae Derrick yn un o'r bobl sydd yn plygu Clonc yn fisol. Gwellhad buan i chi.

## Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Cerys Lewis, 1 Bro Teifi am basio Step 2 gydag anrhydedd ar y piano, o dan nawdd y 'London College of Music.' Cafodd Cerys farciau llawn yn y gwaith technegol - da iawn ti.



## Rali Sir Gâr

Tyrrodd cannoedd o aelodau a ffrindiau'r Mudiad i Faes Sioe Caerfyrddin ar Ddydd Sadwrn 8fed Fai 2010 i gystadlu a gwyllo.

Rydym yn ddiolchgar i Bwyllgor y Sioe ac hefyd staff y Sioe am eu cydweithrediad parod a chyson iawn tuag at y Mudiad.

Diolch yn fawr iawn i G.Ff.I Llangadog a fu'n stiwardio yn ystod y dydd ac hefyd i G.Ff.I Dyffryn Tywi a fu'n stiwardio gyda'r nos.

Mae'r Mudiad yn ddibynnol iawn ar haelioni noddwyr ac rydym am ddiolch o waelod calon i Gwmni Bwydydd Castell Howell ac i Gwmni Towry Events am fod yn brif noddwyr Rali'r Mudiad unwaith eto eleni. Diolch hefyd i Hybu Cig Cymru am ei nawdd hwy, - heb y cymorth ariannol yma ni fyddai wedi bod yn bosib i gynnal diwrnod o'r fath. Diolch yn fawr iawn i bawb.



Daeth y diwrnod i uchafbwynt gyda seremoni anrhydeddu'r Llysghenhades a Dirprwyon am 2010- 2011. Ffion Jones, Brynywawr, Dryslwyn aelod o G.Ff.I Llanfynydd yw Llysghenhades newydd y Mudiad am eleni a'i dirprwyon yw Rachel Hughes, C.Ff.I Llangadog, Meryl Davies, C.Ff.I Llanllwni, Louisa Standeven, C.Ff.I Llanddarog a Bethan Griffiths, C.Ff.I Dyffryn Cothi.

Hefyd fe anrhydeddwyd Iestyn Owen, C.Ff.I Capel Dewi- Aelod Iau y flwyddyn, Elin Davies, C.Ff.I Capel Iwan- Aelod Hŷn y flwyddyn, Meinir Jones, C.Ff.I Llanfynydd - Stocmon Hŷn Diwrnod gwaith maes, Eirwyn Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi Stocmon Iau Diwrnod gwaith maes. Hefyd yn ystod y Seremoni cyhoeddwyd enillydd Tlws Coffa Aled Howells am Brif Stocmon y Flwyddyn sef Meinir Jones o Glwb Llanfynydd.

C.Ff.I Llanfynydd ddaeth i'r brig yn yr adran hŷn gyda Llanymddyfri yn 2ail a Dyffryn Cothi yn 3ydd. C.Ff.I Llanymddyfri gipiodd y wobr gyntaf yn yr adran Iau gyda C.Ff.I Llanllwni a Dyffryn Tywi yn rhannu yr 2ail safle.

Wedi diwrnod brwd o gystadlu a mwynhau coronwyd y dydd gyda dawns arbennig ian yng Nghilycwm. Diolch yn fawr iawn i Mr & Mrs Davies, Fferm Glangwenlais Cilycwm am eu cymorth cyson.

Gwobrau'r Adran Iau: Gwisgo Arweinydd - 1af Polly Harries a Lucy Wright, Dyffryn Cothi; Cneifio - 2ail Gethin Mathias a Dylan Lewis, Dyffryn Cothi, 3ydd Aled Thomas a Rhydian Thomas, Cwmann; Gwaith Coed - 1af Siôn Evans a Daniel Joynson, Llanllwni, 2ail Aled Jones a Hefin Jones, Llanllwni; Coginio - 1af Laura George a Carwen George, Dyffryn Cothi, Crefft - 3ydd Meryl Davies, Llanllwni,



Gosod Blodau Dan 21 - 1af Nerys Thomas, Llanllwni, 3ydd Rhian Lewis, Dyffryn Cothi; Paratoi Oen - 1af Eirwyn Richards, Dyffryn Cothi; Merch i wneud Coler - 1af Rhian Davies, Llanllwni; Gwau i fechgyn - 2ail Josh Joynson, Llanllwni. Gwobrau'r Adran Hŷn: Cneifio 1af Adrian Evans ac Ian O'Connor, Dyffryn Cothi, 2ail Llion Russell a Tomos Jones, Cwmann, 3ydd Dafydd Lewis a Dai Astington, Dyffryn Cothi; Barnu Moch Cymreig - 2ail Dafydd Lewis ac Adrian Evans, Dyffryn Cothi; Coginio - 3ydd Bethan Griffiths, Rhian Lewis a Manon Johnston, Dyffryn Cothi; Gwaith Coed - 1af Geraint Griffiths ac Owen Davies, Dyffryn Cothi; Barnu Defaid Duon Cymreig - 2ail Dafydd Lewis ac Aled Jones, Dyffryn Cothi; Gosod Blodau - 1af Wendy Evans, Dyffryn Cothi; Paratoi Oen - 1af Dafydd Lewis, Dyffryn Cothi; Arwydd Hyrwyddo'r Rali - 1af Llanllwni; Arddangosfa'r Prif gylch - 2ail Dyffryn Cothi; Arddangosfa Ffederasiwn - 2ail Llanllwni.

## Ceredigion

Llongyfarchiadau mawr i Gwynne Davies, Llanddewi Brefi ar gael ei ethol yn Is-Gadeirydd NFYFC yn ddiweddar.

Bu swyddogion a ffrindiau'r Sir yn cerdded yr arfordir o Aberaeron i Lanrhystud gan godi arian i Sefydliad Aren Cymru sef elusen C.Ff.I. Cymru eleni. Llwyddwyd i godi £990!

Dyma enillwyr Clwb 200 mis Mai: Rhun a Ceris Fychan, Penwern, Cilcennin, Llambedi; J. Mansel Jones, Hawen Hall, Rhydlewis; Hugh ac Ann Tudor, Tynberllan, Llanilar.

Bydd gan C.Ff.I Ceredigion stondin ar y cyd gydag Undeb Amaethwyr Cymru ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llannerchaeron. Trefnir digwyddiad yno i godi arian i elusen C.Ff.I. Cymru ar y dydd Llun. Dewch i gefnogi!

## Dyddiadau i'r dyddiaduron

5 Mehefin - Gig ar y cyd gyda Phwyllgor Ieuencid yr Urdd yng Nghlwb Rygbi Aberaeron, gydag Elin Fflur a Fushanti.

11 Mehefin - Rygbi 7 bob ochr y sir - Clwb Rygbi Aberaeron

19 Mehefin - Chwaraeon y sir - Llambedi (gyda dawns i ddilyn)

25 Mehefin - Tynnu'r Gelyn - Clwb Rygbi Aberaeron.

## Sul y Breninesau

Dim erioed o'r blaen yn hanes yr enwad Undodaidd y mae deg o gyn freninesau y Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion sydd â chysylltiad cryf â'r enwad wedi casglu ynghyd mewn oedfa ond dyna a ddigwyddodd yng Nghapel y Groes ar brynhwau dydd Sul 16 Mai.

Wrth i dymor Manon Richards o Lanwnnen fel Brenhines Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion offren am eleni, cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghapel y Groes i nodi'r achlysur. Mae Manon yn aelod ffyddlon yno yn ogystal â bod yn un o'r organyddion y capel. Daeth cyfnod Manon i ben fel brenhines yn ystod y Rali flynyddol a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn 22 Mai yn Lanrhystud.



Yn y llun mae (o'r chwith) 1964 Christina Hughes (Morgans) Felinfach. 1965 Megan Jones, Felinfach. 1972 Mair Williams (Green), Llanddewi Brefi. 1977 Ann Davies (Jones), Pontsian. 1980 Delyth Lewis (Jenkins), Llanwenog. 1991 Siwsan Dafis (Davies), Pontsian. 1992 Marian Thomas (Jones), Llanwenog. 1998 Eleri Jones (Jenkins) Pontsian. 2000/01 Meinir Green, Llanddewi Brefi. 2009 Manon Richards, Llanwenog.

Yn ychwanegol roedd naw o gyn freninesau Undodaidd sydd wedi eu coronu ers 1964 yng Ngheredigion, hefyd wedi derbyn gwahoddiad i fynychu'r gwasanaeth. Yn ystod y gwasanaeth gwnaethant i gyd wisgo y 'sash' a braf oedd gweld y deg yn bresennol gyda'i gilydd am y tro cyntaf erioed. Roedd hefyd cyfle i rannu llawer o atgofion a darllen rhaglenni y gwahanol Raliau a gynhaliwyd adeg eu coronu. Cymerwyd rhan gan rai o'r cyn freninesau a chafwyd pregeth amserol gan weinidog y capel sef Cen Llwyd. Rhoddwyd rhaglen wedi ei chyhoeddi yn benodol i nodi'r achlysur i bob un o'r deg. Roedd hon wedi ei pharatoi gan Nia Wyn Davies. Yn bresennol hefyd roedd Llywydd Ffederasiwn Ceredigion sef Glyn Davies o Felin-fach ac hefyd Arwel Jones o Lanarth sydd yn Gadeirydd Ffederasiwn y Sir.

I offren cafwyd lluniaeth a chyfle i sgwrsio a chymdeithasu yn y festri.

## HYSBYSEBU YN CLONC

*"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."*

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach. £30.00 am chwarter tudalen.

£50.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:

01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk



# Llanllwni

## C.F.F.I. Llanllwni

Mis prysur mae aelodau y clwb wedi cael y mis diwethaf yma gan ein bod ni gyd wedi bod yn brysur iawn yn paratoi go gyfer ein rali blynyddol. Dydd Sadwrn 8 Mai cynhaliwyd rali C.F.F.I Sir Gâr a braf oedd gweld cystadlu brwd ar Faes Sioe Caerfyrddin. Cafodd Llanllwni ddiwrnod hwylus iawn trwy cgipio 4 cwpan ar ddiwedd y dydd. Cafodd Nerys Thomas gyntaf yn arddangos blodau, Siôn Evans a Daniel Joynson cyntaf yn y gwaith coed, enillwyd y gystadleuaeth gwneud arwydd i hysbysebu y rali eleni eto – am y pedwerydd flwyddyn yn olynol!!! Y dasg oedd gyda Rhian Davies oedd i wneud coler buwch a braf dweud ei bod wedi dod i'r brig yn y gystadleuaeth yna. Cafodd Josh Joynson ail am wau, Aled Jones a Hefin Jones ail yn y gwaith coed ac hefyd cipiwyd yr ail wobwr am y 'static'. Gwneud Tarian oedd tasg y gystadleuaeth crefft eleni a chipiodd Meryl Davies y drydedd wobwr.

Braf oedd gweld Meryl Davies ar y llwyfan yn ystod y seremoni prynhawn fel Dirprwy Llysgenhades y Sir am y flwyddyn sydd i ddod.

Llongyfarchiadau i holl aelodau y clwb a wnaeth gystadlu yn y rali lle sicrhawyd bod Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn cipio y darian am yr ail safle yn yr adran iau ar ddiwedd y dydd.

Hoffwn ddiolch i bawb wnaeth ddysgu'r holl aelodau ac helpu allan mewn pob modd – Diolch.



Ar nos Wener 14 Mai cynhaliwyd ein cinio blynyddol yn y Porth, Llandysul. Cafwyd gwledd o fwyd a llond lle o fwynhad. Anrhydeddwyd Sion Evans fel aelod y flwyddyn. Cafwyd areithiau gan Meryl Davies Cadeiryddes y Clwb, Mr a Mrs Evans, Pantycubal, Llywyddion y clwb a Mrs Eirios Thomas siaradwraig wadd y noson.

## Ysgol Llanllwni

Buom yn ymweld ag Amgueddfa Abergwili fore Iau, Ebrill 22ain. Yn yr hen ysgol cawsom flas o wersi slawer dydd, gwisgo i fyny a dal yr arteffactau. Roedd yn brofiad diddorol gan fod Ysgol Llanllwni yn dathlu 140 oed eleni. Hefyd buom yn yr hen fwthyn a gwneud gweithgareddau ymarferol.

Bu Mr Phill Thomas o Tŷ Hafan atom yn sôn am ei waith gyda phlant llai ffodus na ni. Bwriadwn godi arian at yr elusen cyn diwedd y tymor.

Bu'r Adran Iau yn ymweld â gorsaf pwêr trydan Cwm Rheidol ger Aberystwyth i weld sut y cynhyrchir trydan gyda phwer dŵr. Buont yn cystadlu mewn sialens K'Nex. Roedd yn ymweliad diddorol iawn.

Yn ein sesiynau Urdd diweddaraf cawsom noson o goginio a noson o chwaraeon. Bu Alwyn, Joshua a Daniel am benwythnos yn Llangrannog gan fwynhau'r holl weithgareddau a'r cymdeithasu. Bu blwyddyn 6 yn gwneud teclyn dal pensilion gyda Mr Allan Jones yn Ysgol Gyfun Llambod.

Ar ddydd Sadwrn, 1af o Fai, cynhaliwyd Te Fictorianaid fel rhan o ddathliadau 140 mlynedd Ysgol Eglwys Llanllwni. Yn ogystal â the, roedd arddangosfa o hen luniau ac arteffactau yn perthyn i'r ysgol a'r gymuned leol. Cafwyd hwyl yn adnabod nifer o wynebau cyfarwydd yn y lluniau! Cafwyd te blasus a baratowyd gan y rhieni ac aelodau Pwyllgor y Rhieni ac Athrawon. Roeddem wedi bod yn lwcus iawn efo'r tywydd ac oherwydd hyn cafodd y plant eu te yn yr awyr agored.

Llywydd y dydd oedd Mrs Rachel Thomas, Hafod, Llanybydder, cyn-athrawes yr ysgol a chyflwynwyd anrheg iddi gan Caryl Evans, cadeiryddes Pwyllgor y Rhieni ac Athrawon. Mr Roy Jones, Erwlon gynt, un o gyn-ddisgyblion hynaf yr ysgol a dorrodd y gacen. Diolch i Ruth Evans am wneud y gacen a diolch hefyd i Dr David Thorne am arwain y prynhawn.

Derbyniodd holl blant yr ysgol, y Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi fyf i gofio'r dathliad arbennig yma. Cyflwynwyd y mygiau gan gadeirydd ac is-gadeirydd y Cyngor Cymunedol, sef, Mr Tom Jones a Mr Emyr Evans. Roedd mygiau, platiau a bagiau ar werth yn ystod y prynhawn hefyd. Os ydych am archebu unrhyw un o'r nwyddau yma cysylltwch â'r ysgol.



Aelodau Cyngor Cymuned Llanllwni yn casglu sbwriel

Cawsom gefnogaeth gan yr hen a'r ifanc, o bell ac agos. Diolch o galon i bawb a ddaeth i'n cefnogi ac i bawb a sicrhodd lwyddiant ysgubol y prynhawn.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Rhieni ac Athrawon wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau i nodi bod Ysgol Llanllwni yn dathlu 140 mlynedd:

Nos Wener, Mehefin 18fed - Bydd Cyngerdd yn yr ysgol am 7yh. Eitemau gan blant yr ysgol, cyn-ddisgyblion ac aelodau y CFF I. Llywydd y noson fydd Y Parch. Eileen Davies, Gwndwn.

Nos Sadwrn, 3ydd o Orffennaf - Bydd Noson yn y Llew Du, Llanybydder gyda 'Free Beer' a Dai Jenkins (Llansawel). £6 am docyn. Oedolion yn unig.

Dydd Gwener, Medi 10fed - Bydd Decathlon a Gemau Potes yn Clynmelyn, Llanllwni am 4.30yh. Gwahoddir ysgolion lleol.

Nos Sadwrn, 13eg o Dachwedd - Cynhelir Cinio Dathlu ym Mhrifysgol Llanbed am 7.30yh. Llywyddion y noson fydd Mr a Mrs Eric Davies, Ninant a Mr John Jones, Hengae fydd y gŵr gwadd. £17.50

Croeso cynnes i bawb i'r holl ddigwyddiadau. Tocynnau i 'r noson yn y Llew Du a'r cinio ar gael nawr o'r ysgol (01559) 395624 neu Ruth Evans (01559) 395225.

## Llangybi a Betws

### Hamdden

Cyfarfu'r gymdeithas ar Fai 7fed yn Ysgol y Dderi. Bu rhaid newid y trefniadau ar y funud olaf, ond fe dreuliwyd prynhawn diddorol ac addysgiadol iawn yn gwylio fideo o blant Ysgol y Dderi. Mae'r ysgol wedi creu cysylltiadau agos a nifer o ysgolion mewn gwahanol wledydd. Mae'n syndod fel mae addysg wedi datblygu yn y ganol yma. Rhoddwyd pleidlais werthfawrogol o ddiolch am y fraint o gael mwynhau'r gweithgaredd a oedd ynghlwm a'r teithiau tramor gan Sally Davies. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Maisie Morgans a Mair Spate.

Ar Fehefin 4ydd fe fydd yna drip i Erddi Bodnant. Cychwyn o Gwmant am 8 o'r gloch y bore a theithio i gyfeiriad Llangybi. Pris y trip fydd £17. Enwau i Sally Davies ar frys - 422926. Fe fydd angen syniadau am siaradwyr i raglen y tymor nesaf - dewch a'ch awgrymiadau gennych.

### Ysgol y Dderi

Unwaith eto eleni bu'r plant yn brysur yn casglu arian ar gyfer ein taith feicio nodedig o'r ysgol i'r Talbot yn Nhregaron. Cadwodd y glaw bant a chafwyd noson arbennig yng nghwmni'n gilydd. Diolch o galon i'r staff, rhieni a ffrindiau'r ysgol am wneud y noson yn un

llwyddiannus ac i'r Talbot am eu croeso. Fel yr arfer, mi fydd yr arian a gasglwyd yn mynd tuag at ein taith i Dalby Skole yn Nenmarc.

Mae Roger, ein gofalwr cydwybodol wedi bod yn brysur yng ngerddi'r ysgol ac mae'n bleser i'w gweld. Gobeithio bydd y tywydd yn garedig haf eleni a'r blodau'n cael chwarae teg. Edrychwn ymlaen at weld môr o liw yn harddu'r ysgol dros fisoedd yr haf. Diolch Roger am eich gwaith diflino.

Teithiodd Mrs Ann, Helen un o'n llywodraethwyr a phedwar o blant i Kastamaonou yng ngogledd Twri. Bu Rhiannon, Rhodri, Jade ac Arianna yn mwynhau yng nghwmni ffrindiau o'n cyfaill ysgolion yn Ewrop mewn cyfarfodydd cynllunio. Cafwyd amser bythgofiadwy a chyfle i ddysgu am draddodiadau'r wlad arbennig hon. Diolch am y croeso cynnes a gafwyd yno ac edrychwn ymlaen yn awr i'r cyfarfod nesaf yn Norwy yn yr hydref.

Cafwyd diwrnod arbennig yng nghwmni myfyrwyr o Tsieina fel rhan o brosiect 'Connecting Classrooms'. Bu plant y Cyfnod Sylfaen a'r Adran Iau yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau traddodiadol megis dawns y llew, coginio bwydydd traddodiadol ac ysgrifennu yn eu dull arbennig hwy.

Mi fydd Ffair Haf Ysgol Y Dderi dydd Sadwrn 3ydd o Orffennaf.



# Cwrtnewydd

## Diolch

Dymuna Nanna, Garth ddiolch yn gynnes i bawb am y cardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

## Penblwydd

Dathlodd Mrs Nel Price, Castle Green penblwydd arbennig yn 70 oed yn ddiweddar. Gobeithio i chi fwynhau eich diwrnod.

## Ar wellhad

Gobeithio erbyn hyn fod Emlyn Davies, 4 Heol-y-Bryn ar wellhad ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus yn ddiweddar.

## Ysgol Gynradd Cwrtnewydd

Mae mis Mai yn fis prysur iawn yn ysgol Cwrtnewydd wrth ein bod yn cynnal ein gweithgareddau blynyddol Calan Mai. Eleni ein llywyddion oedd ein cyn-brifathro

Mr Eirian Evans a'i wraig Menna, braf oedd cael eu croesawu yn ôl yn wresog i'r ysgol. Cyflwynwyd rhodd i'r ddau gan blant ieuengaf yr ysgol sef Lisa Jenkins a Nathaniel Wroe.

Rhedodd nifer fawr o oedolion a phlant yn yr amrywiol rاسus. Enillwyd tarian y bachgen cyntaf o ysgol Cwrtnewydd gan Iwan Evans a tharian y ferch gyntaf gan Cerys Pollock. Cafwyd arwerthiant lwyddiannus iawn â phawb yn y gymuned eang yn twrio yn ddwfn iawn i'w pocedi. Tynnwyd y raffl a diolchodd Wendy Davies i bawb am lwyddo i wneud Calan Mai mor llwyddiannus unwaith eto eleni. Braf yw cael cofnodi bod Cymdeithas Rien i ac Athrawon Cwrtnewydd wedi cyd-weithio yn arbennig o dda i godi swm anhygoel o £5500! Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cymorth a chefnogaeth ar y diwrnod.

Gan fod yr ysgol yn cael ei defnyddio fel Gorsfa Bledleisio trefnwyd ein bod yn mynd ar drip addysgiadol i Gwm Elan. Cafwyd diwrnod arbennig, bu'r plant hŷn yn gweithio yn y pyllau dŵr ac yn y goedwig, tra bu'r plant ieuengaf yn crwydro ar hyd y llwybrau yn chwilio a darganfod. Cafodd y plant botel ddŵr yr un ar ddiwedd eu hymweliad. Roeddent wedi mwynhau eu hamrwyiol brofiadau.



Bu Rhys Davies, Kiera Cashel, Aleksandr O'Dell, Iwan Evans, Briallt Williams ac Alpha Jones yn cystadlu yn rownd Ceredigion o Gystadleuaeth Llyfrau Cymraeg, lle bu'r plant yn trafod llyfr ac yna yn cyflwyno Mr Cadno Campus. Daeth llwyddiant i'w rhan wrth iddynt ennill y gystadleuaeth. Pob hwyl iddynt yn rownd Cymru ar Fehefin 17eg.



Mae Iwan Evans, Rhys Davies, Alpha Jones a Briallt Williams wedi bod yn cystadlu yng Nghwis Llyfrau Ceredigion, mae'r pedwar wedi gwneud yn

arbennig o dda ac wedi dod yn gyntaf ar y cyd gyda dwy ysgol arall o'r Sir.

Mae plant blwyddyn chwech wedi bod yn ymweld â ysgol uwchradd Llanbed am y dydd. Cafodd y plant gyfle i ddod i adnabod yr ysgol a chyflawni tasgau Mathemateg a Gwyddoniaeth.



Eisteddfod yr Urdd - daeth newyddion da i'r ysgol yn ystod yr wythnos ddiwethaf llwyddodd plant y dosbarth hŷn i gipio y drydedd wobwr yn

genedlaethol am gyfansoddi Cerddoriaeth i'r thema Trai a Llanw. Dathlwn hefyd lwyddiant Zachary Wroe wrth iddo dderbyn medal y trydydd yng ngystadleuaeth rhyddiaith. Da iwan chi blant!

Dymunwn pob lwc i holl blant yr ysgol a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar ddydd Llun, Mai 31ain. Bydd eu rhagbrawf am ddeg o'r gloch y bore, dewch i gefnogi! Dymunwn hefyd bob lwc i Iwan Evans, Rhys Davies, Gethin Morgans ac Elin Davies fydd yn cymryd rhan yn y sioe Gynradd yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Hoffwn hefyd ddymuno pob lwc i'r holl gyn-disgyblion a fydd yn cystadlu yn Llanerch-aeron.

Canlyniadau Clwb 100 - Mai 2010: 1af – Ann Davies, Ger y Nant, Drefach. 2ail – Nanna Jones, Garth, Cwrtnewydd. 3ydd – Meleri Davies, Tyngrug Isaf, Cwmsychbant. 4ydd – Bowen Jones, Blaenblodau, New Inn.



## Cellan

### Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus iawn i Mrs Esme Payne, Lanyon ar ddathlu ei phen blwydd yn 80 oed, pob hwyl â'r dathlu.

### Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Rhys a Rhian, Bayliau ar eu dyweddïad a phob hwyl i'r dyfodol.

### Croeso

Croeso cynnes i Anthony ac Ashley Price a'r teulu sydd wedi ymgartrefu yn Arosfa.

### Gêmau'r Gymanwlad

Llongyfarchiadau gwresog i Anwen Butten ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru yng ngemau'r gymanwlad yn Delhi yn yr Hydref. Gobeithio y caiff lwyddiant yno a lledu enw Cellan i bellafodd India!

## Silian

### Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Del Evans, Tangraig am basio Gradd 4 gyda chlod ar y piano, o dan nawdd y 'London College of Music'.



Dwy o ferched Gwarffynnon a fu yn llwyddiannus yng nghystadlaethau gwaith cartref Eisteddfod Yr Urdd - Hedydd 1af a 3ydd am Gyfansoddi Cerdd Dant dan 25 oed, Elliw 2ail a 3ydd am Farddoniaeth Blynyddoedd 12 a 13.



# Llanbedr Pont Steffan

## Cerddwyr Llambed

Evesham oedd y dewis y tro hwn i weld y coed afalau yn eu blodau, a dyma ardal sydd â rhywbeth i bob tymor.

Y mae fferm Dunnington Heath Alcester yn le traddodiadol, ond wedi arallgyfeirio i werthu bwyd a phlanhigion lleol, ac yn denu llawer o gwsmeriaid. Yma, fe gawsom gwrdd ag arweinwyr lleol i ddangos y llwybrau i ni. Roedd enwau'r llwybrau yn newydd i ni sef Dunnington, Tothall, Salford Priors, Portway Barn a Cock Bovington. Gwelsom berllannau afalau yn dwt yma ac acw yn ogystal â chaeau melyn llachar o flodau rape a glaswellt. Gwelsom hefyd gaeau o ffa bach er mwyn rhoi nitrogen i'r ddaear, ac fel bwyd i'r anifeiliaid. O dan gysgod, roedd cyfeiri o fefus, a gwelsom gnydau o asparagus ac eirin.

Dechreuom gyda'n gilydd i bentref Donington - pentref â bythynnod to gwellt hyfryd a thu hwnt roedd caeau ffrwythlon llyfn yn ymestyn i'r gorwel. Aeth un garfan ohonom yn ôl i bleserau'r ganolfan, ond ymlaen aeth y mwyafrif i ddyfnderoedd y dyffryn. Cerddasom drwy lwybrau eang yng nghanol y blodau melyn, ar draws caeau ffa a rhyfeddu at yr hen ysguboriau â thoi o deils bach coch a brics coch. Pob man mor dlws. Rhyfeddom at yr hen Saesneg yn yr enwau llefydd fel Wyre Piddle! Pershore oedd y dref agosaf gyda'i hen eglwys Normanaidd yn rhan o abaty yn dystiolaeth o'n treftadaeth dros y canrifoedd.

I'r dwyrain roedd gwastadedd y Cotswolds, ond i'r gorllewin gwelsom y Malverns creigiog, ac atynt hwy yr aeth y gyrrwr.

Yr oedd lluniaeth blasus wedi ei ddarparu i'r teithwyr blinedig yn y Kings Head, Llanymddyfri, a chyfle i bawb drafod anturiaethau'r dydd.

Diolch i'r trefnwyr Kay a James am gynllunio diwrnod i'w gofio yn sir Gaerwrangon. Yr oedd yn rhywbeth i bawb i'w drysori.

## Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Llion Thomas, Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog am basio Gradd 5 theori gydag anrhydedd yn ddiweddar. Roedd yn ymgeisio o dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

## Diolch

Dymuna John a Beti Bryncastell ddiolch yn gynnes iawn i'w perthnasau, cymdogion a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn marwolaeth William John Phillips, Bryncastell, Llanfair. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr. Diolch o waelod calon i chi gyd.

Dymuna Beti Bryncastell ddiolch yn ddiffuant i'w phlant a'r teulu a

phawb am eu dymuniadau da ac am bob galwad a dderbyniodd yn ystod ei chyfnod o anhwylder. Diolch yn fawr iawn am bopeth.

## Canolfan Steffan

Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus yng Nghanolfan Steffan ar y seithfed o Fai i godi arian at Apêl Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llanerchaeron. Canolfan yw hon ar gyfer oedolion ag anhegion arbennig a bu pawb ohonynt ynghlwm â'r paratodau trwy goginio cacennau chwaethus o bob math a chreu addurniadau deniadol iawn oedd yn adlewyrchu lliwiau'r Urdd. Cawsant fwynhâd wrth y gwaith gan deimlo'n rhan o fwrlwm yr Eisteddfod ac o ganlyniad i'w cyfraniad roedd y Ganolfan yn ymdebygu i faes yr Ŵyl ac yn werth ei gweld. Croesawyd pawb yn gynnes gan Darren Phillips, Pennaeth y Ganolfan, yn cynnwys Irfon Bennett, Dirprwy Gyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Trwy gyfrwng lluniau arbennig cafwyd ychydig o hanes yr Eisteddfod ganddo. Hefyd cyflwynodd becn o docynnau i'r Ganolfan gan wahodd yr aelodau a'u gofalu i Lanerchaeron ar y dydd Mercher. Diolchodd y Pennaeth yn ddiffuant iddo am ei garedigrwydd. Talodd Janet Evans werthfawrogiad i bawb yng Nghanolfan Steffan am ei parodrwydd i gynnal gweithgaredd i godi arian at yr Eisteddfod ac am eu gwaith caled yn paratoi. O ganlyniad codwyd £159.

## Cerddor Dawnus

Llongyfarchiadau i Tomos Harris, 1 Tŷ Hen Uchaf ar ei lwyddiant yn pasio arholiad gradd 7 ar y ffid gyda rhagoriaeth (distinction) dan nawdd y Coleg Gerdd Brenhinol. Mae Tomos yn gerddor dawnus iawn. Bu'n diddanu'r gwesteion yn ddiweddar yn Sermoni Sefydlu'r Cynghorydd Rob Phillips fel Maer y dref ac yn ystod y ginio oedd yn dilyn. Cafwyd mwynhad mawr yn gwrando arno yn canu'r piano a'r acordion a derbyniodd gymeradwyaeth frwd iawn yn dilyn ei berfformiadau. Mae Tomos hefyd yn ymddiddori yn y maes cyfansoddi. Estynnir dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol.

## Gyrfa Chwist – Hafan Deg

Ar nos Fercher 28ain o Ebrill cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr oedd fel a ganlyn – Dynion: Cydradd 1af – Peggi Davies, Felinfach ac Emrys Evans, Llanllwni. 2il – Gwendoline Davies, Llanwnnen. Merched: 1af – Ray Thomas, Stryd Newydd, Llambod. 2il – Mari Evans, Llanwnnen. 3ydd – Nancy Davies, Heol y Wig,



Y Cyngh. Selwyn Walters, Maer Llambod yn cyflwyno sic o £11,500 i goffrau adnewyddu neuadd y Scowtiaid i arweinydd grŵp y Scowtiaid sef Iris Newman a'r Ymddiriedolwyr, y Cyngh. Ifor Williams a John Jones. Hefyd yn y llun mae aelodau Cyngor y Dref ac Arweinydd Scowtiaid 1af Llambod, Scowtiaid, Cubs, Beavers a'r Explorer



Sioe Ffasiwn Ysgol Ffynnonbedr gyda'r llywydd Mrs Brenda Jones.

Llambod. Carden Miniature – Dynion: Edward Lockyer, Hafandeg, Llambod. Cydradd Merched: Nancy Evans, Llanllwni a Gwenda Thomas, Cwmann. Bwrw Allan – Enillwyr: Mai Williams, Tregaron a Nancy Evans, Llanllwni. Ail – Ray Thomas, Llambod a Iorwerth Evans, Llangybi.

Ar nos Fercher 12fed o Fai cynhaliwyd Gyrfa Chwist gyda Mr Iorwerth Evans yn arwain eto. Enillwyr oedd fel a ganlyn – Dynion: 1af – Mai Williams, Tregaron. 2il – Cathrina Davies, Aberaeron. 3ydd – Harry Williams, Ystrad Aeron. Merched: 1af – Ifan P. Jones, Aberarth. 2il – Iorwerth Evans, Llangybi. 3ydd – Margaret Davies, Ffostrasol. Carden Miniature – Dynion: Ray Jenkins, Llangybydder. Merched: Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambod. Bwrw Allan – Enillwyr: Mai Williams, Tregaron a Nancy Davies, Heol y Wig, Llambod. Ail – Beryl Roach, Felinfach ac Eileen Colbourn, Ffostrasol. Bydd y cyrfaod Chwist mis Mehefin ar y 9fed a'r 23ain. Croeso cynnes i bawb.

## Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyrfarod olaf y tymor yn Ysgol Ffynnonbedr nos Fawrth 27 Ebrill. Treuliodd noson ddiddorol, difyr ac egniol yng nghwmni Wyn John. Bu pawb yn cymryd rhan mewn campau a gemau amrywiol a chael llawer o sbort wrth wneud hynny. Roedd yr aelodau i gyd wedi mwynhau mas draw ac wedi colli tipyn o chwys erbyn y diwedd! Talwyd diolch haeddiannol i Wyn am noson hwyliog gan Lowri Elen a hefyd i Natalie am gynorthwyo. Bu'r tymor yn un llwyddiannus unwaith eto a'r aelodau yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn amrywio o flasu pancos i rol sgelfrio heb anghofio'r profiad o gystadlu yn Llanerchaeron cyn bo hir. Diolchir yn gynnes i Geinor Medi a Janet yr arweinyddion am baratoi yn helaeth ar gyfer y bobl ifanc ac i Rosaline a nifer o'r rhieni sydd mor barod i gynnig help llaw. Braff yw cyhoeddi llwyddiant Hedydd ac Elliw yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Cipiodd Hedydd y cyntaf a'r trydydd yn y gystadleuaeth cyfansoddi



# Llanbedr Pont Steffan

cainc yn yr adran gerdd dant dan 25 oed. Dyfarnwyd Elliw yn ail ac yn drydydd am ysgrifennu barddoniaeth i flynyddoedd 12 a 13. Roedd Hedydd yn cynrychioli Aelwyd Llambled ac Elliw yn cynrychioli'r Ysgol Gyfun. Llongyfarchiadau calonnog i'r ddwy ohonynt. Diddorol yw nodi mai enillydd y gystadleuaeth barddoniaeth i flynyddoedd 12 a 13 oedd neb llai na Guto Gwilym, disgybl yn Ysgol Dyffryn Teifi a chyn aelod o Aelwyd Llambled. Llongyfarchwn yntau hefyd ar ei gamp. Ymfalchïwn yn llwyddiant ein hieuenctid.

## Ysgol Ffynnonbedr

Gwych oedd derbyn y wybodaeth fod nifer o'n plant wedi derbyn gwobrau yn yr adrannau Celf a Chrefft a Barddoniaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Daeth Lowri Davies i'r uchelfannau yn nhermau'i phrint du a gwyn. Enillodd nid yn unig ei hadran ond hefyd Tlws Ted Breeze Jones am y print du a gwyn gorau yn yr eisteddfod. Caiff dderbyn y Tlws yn y Pafiliwn ar y dydd Llun. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Yna, daeth Lauren Hill yn ail am ddarn o farddoniaeth a grëwyd ganddi - ardderchog yn wir. Tra cipiwyd dwy wobwr arall sef trydydd yn y Dylunio a Thechnoleg Bl 5 a 6 i Meirion Thomas a thrydydd arall i Ruth Davies am waith creadigol. Llongyfarchiadau felly i bawb.

Hyderwn y gwnaiff ein disgyblion eraill yn dda yn y cystadlaethau sydd o'u blaen.

Dymunwn yn dda i Charlotte Saunders yn yr Unawd Bl. 3 a 4 ac i Marriyah Abdul Halim yn y llefaru unigol i ddysgwyr. Edrychwn ymlaen at berfformiad y Grŵp Dawns Cyfrwng Gymysg ac hefyd i'r Parti Deulais gan ddiolch yn wresog iawn i'r rhai a fu'n dysgu a chefnogi ym mha fodd bynnag.

Pob hwyl hefyd i Teon Rees, Meirion Thomas, Caryl Jacob, Charlotte Saunders, Lois Price a Tomos Jones a fydd yn perfformio yn y sioe.

Gwahoddwyd nifer o werthwyr cynnyrch i ardd yr ysgol dros y penwythnos diwethaf. Cafwyd diwrnod hwylus a bu'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn paratoi te. Diolch i'r staff a fu'n goruchwylio'r gweithgareddau.

## Cymdeithas Hanes

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, croesawyd pawb i gyfarfod mis Mai gan Cecilia Barton, yr Ysgrifennydd. Trosglwyddodd yr awenau i ddwylo Penny David, a hi gyflwynodd y siaradwr gwadd, sef y Parch. Ddr. John Morgan-Guy, darlithydd rhan-

amser yn adran Diwinyddiaeth a Hanes Eglwysig yng Ngholeg y Brifysgol yn Llambled.

Mae ef, ynghyd â Dr Martin O'Kane, prif ddarlithydd yn adran Astudiaethau Beiblaidd yn Llambled, a Martin Crampin, o'r Llyfrgell Genedlaethol, wedi cyd-weithio ac ymchwilio dros bedair blynedd i weld sut mae testunau Beiblaidd wedi eu delweddu mewn amryw ffordd weledol yng Nghymru. Ffenestri lliw, cerfluniau, - o garreg, gwaith coed, serameg; portreadau ayyb. Bu'r tri yn crwydro hwnt ac yma ar draws Cymru er mwyn darganfod y trysorau yma, - doedd cywreindeb y gwaith ddim yn bwysig, - dim ond y wybodaeth o'u bod nhw ar gael.

Testun Dr Morgan-Guy ar y noson oedd "Delweddau'r Beibl yn, ac o gwmpas Llambled". Trwy gyfrwng lluniau, - y rheini i gyd o waith Martin Crampin, - (ef hefyd yn bresennol), agorwyd llygaid yr aelodau i'r trysorau sydd gennym yn yr ardal. Dechreuwyd yng Nghapel y Coleg, a'r llun a gyflwynwyd i'r Coleg gan deulu'r Harfords.

Esboniwyd beth oedd i'w gweld yn y ffenestri lliw yn Eglwys St Pedr, a pwy a'i cynlluniodd. Dywedodd fod y ffenest Orllewinol o bwys rhyng-genedlaethol.

Aeth a ni i'r Eglwys Gatholig, gan bwysleisio ei hunigrwydd o fod yn gyfanwaith gan aelodau'r Urdd o Artistiaid Catholig.

Gwelwyd gwaith John Petts yng Nghapel Brondeifi, - ffenest liw i gofio am Tecwyn Williams, Cwmann, a gollodd ei fywyd yng Ngogledd Iwerddon yn 1972.

Yn Soar, llun Holman Hunt o Grist fel 'Goleuni'r Byd'. Yno hefyd llun o waith Ogwyn Davies, a'r testunau Beiblaidd yn yr awyr.

Eglwys Maestir, a gynlluniwyd gan un o deulu'r Harfords, a'r gwaith cywrair o waith Charles Kemp yn ei ffenestri lliw.

Ffenest liw yng Nghapel Pantydefaid, - gwaith cwmni John Paul o Fryste - yn dangos St. Paul.

Cyfeiriodd hefyd at waith artistiaid yn Eglwys Betws Bledrws a Llanwenog, a bu llawer o drafod ar ei sylwadau o'i gynulleidfa.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Dr John Morgan-Guy a Martin Crampin gan yr Athro David Austin. Dywedodd yntau fod yna faes newydd wedi ei agor i drigolion Llambled a'r cylch, a'r pwysigrwydd i werthfawrogi nid yn unig yr hyn a gomisiynwyd gan foneddigion, ond ceiniogau prin y werin a fu'n gyfrifol am dalu am lawer o'r gwaith gweledol sydd ar gael i ni heddi'.

Hwn oedd cyfarfod olaf y tymor, ond bydd yna drip i'r Hafod ar y 13eg o fis Gorffennaf. Enwau i Cecilia Barton.



Agorwyd y Llain Fowlio yn Llambled gan y Maer Selwyn Walters, gyda Nick Randal (Capten); Steve Entwistle (Cadeirydd); Maeres Jdith Walters; Cyng. Hag Haries (Is Lywydd); Brinley Mason (Trysorydd); Morwen Thomas (Ysgrifenyddes) a Ron Thomas (Is Gadeirydd).



Rhian Thomas a Nia Jones yn derbyn eu Gwobr Arweinyddiaeth Oedolion y Geidiaid, sy'n eu galluogi i arwian uned a Megan Jenkins a dderbyniodd Gwobr Baden Powell, sef y dyfarniad uchaf posib o fewn y Geidiaid.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â phawb sydd wedi dioddef profedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf.

# Gohebiaeth Clonc



## "Y peth gorau wnes i erioed!"

Dyna beth ddwedodd un tiwtor am ei phenderfyniad i ddilyn cwrs hyfforddi i fod yn diwtor Cymraeg i Oedolion. Roedd Bethan wedi penderfynu ymddeol yn gynnar ac wedi gweld hysbyseb am diwtoriaid i ddysgu ar gyrsiau Cymraeg. "Mae'n rhaid eich bod chi'n berson cymdeithasol ac yn gallu cynnal diddordeb y dysgwyr - dyna'r ddau beth mwya' pwysig" dwedodd Bethan.

"Mae dosbarthiadau'n cwrdd unwaith neu ddwywaith yr wythnos ac mae Canolfan Cymraeg i Oedolion De-orllewin Cymru yn edrych am diwtoriaid newydd i ddysgu am ddwy awr yr wythnos" dwedodd Siân Thomas sy'n Diwtor/Drefnydd Cymraeg i Oedolion.

Pan symudodd Helen Evans i Gymru, doedd hi ddim yn gallu siarad Cymraeg o gwbl. Mae hi nawr yn gweithio fel Tiwtor/Drefnydd. "Roedd y Cwrs Hyfforddi ar gyfer Tiwtoriaid Newydd yn gyfle i fi weld a oedd y sgiliau 'da fi ar gyfer gweithio fel tiwtor Cymraeg i Oedolion", ychwanegodd Helen.

Bydd dau gwsr yn cael eu cynnal yn ystod 2010/11 - un yn Abertawe a'r llall yn Sir Gaerfyrddin / Sir Benfro. Bydd y cyrsiau yn dechrau ar 16 a 17 Hydref ac yn cwrdd am 3 diwrnod yn ystod 2010/11.

Os oes diddordeb gennych ddilyn Cwrs Dysgu'r Gymraeg i Oedolion neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Caryl Clement ar 01269 860555 neu [j.c.clement@abertawe.ac.uk](mailto:j.c.clement@abertawe.ac.uk)





**Enw:** Angharad Williams  
**Oed:** 25  
**Pentref:** Capeli, Cribyn  
**Gwaith:** Rhedeg siop ffasiwn ifanc  
**lan llofft** uwchben **duet**.  
**Partner:** Huw Thomas.  
**Teulu:** Brawd Huw Puw, Dad a Mam.

**Unrhyw hoff atgof plentyndod.**  
Tro cyntaf i Dad adael fi i yrru beic y ffarm, a chyn bod e'n sylweddoli, roeddwn i wedi gyrru'r beic ar ben clawdd. Efallai bod hyn yn esbonio pam doedd dad ddim yn fodlon rhoi gwersi gyrru i fi 10 blynedd yn ddiweddarach.

**Yr eiliad o'r embaras mwyaf.**  
Mam yn hala fi i ddychwelyd dillad golchi (yn cynnwys par o boxers lyfli patrwm calon) nôl i'r bechgyn drws nesaf. Noswaith cyn 'ny roedden ni wedi cael parti bach yn y tŷ a'r merched (ychydig yn tipsy) yn meddwl bod e'n ddoniol i ymosod ar y lein ddillad. Doedd y ffaith bod un o'r bechgyn drws nesa yn un o'n athrawon ysgol ddim yn helpu, doedd gwers hanes byth yr un peth i ni yn enwedig i Louise Carpets.

**Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.**  
Gweithio yn galed.

**Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?**  
Gyrrwr Formula 1 (jôc Dad!). Na roedd wastad diddordeb gen i i weithio yn y byd ffasiwn ers dechrau helpu yn duet pan roeddwn yn 12.

**Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?**  
Yn siop lan llofft (yng nghanol dillad neu ar y ffarm (yng nghanol baw).

**Beth yw dy lysenw?**  
Capeli, Capooli, Angy, Bang .

**I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?**  
Pan ofynnes i i Huw wedodd e "cross rhwng Mrs Bouquet a Mr Bean!"

**Y peth gorau am yr ardal hon?**  
Ffrindiau aka "y merched".

**Y peth gwaethaf am yr ardal hon?**  
Sdim *tube*, felly mae angen gyrru. Dyw hyn ddim yn beth da i fi nac i yrwyr eraill, na welydd Ceredigion.

**Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?**  
Pobl ddiog a phobl araf smala.

**Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?**  
Eitha rhwydd, rhowch bnawn i fi yn Oxford Street. Bydde fe fel *Supermarket Sweep*.

**Beth sy'n codi ofn arnat?**  
Gyrru Louise Carpets yn y jetta!!



**Pryd llefaist ti ddiwethaf?**  
Ar ôl i'r bois ar y fferm gamgymryd trowseri linen gwyn Valentino fi fel cadachau olew. Torcalonnus!

**Pryd chwydaist ti ddiwethaf?**  
Ar ôl i rywun gael syniad gwych o gymryd *short cut* dros hewl Pontarfynach a meddwl bo nhw'n Jeremy Clarkson. Erbyn i ni orfod stopio i chwydu'r holl ffordd o Bont i Gaer, sa i'n credu bod e wedi gweithio mas fel lot o *short cut*!.

**Pryd est ti'n grac ddiwethaf?**  
Ma' hyn yn digwydd yn aml yn anffodus. Rwy bach yn fyr amynedd, ond y tro diwetha oedd ddoe pan nath Huw Puw ddechrau bwyta fy *Kit Kat* ron i wedi safio i fwyta ar ddiwedd y dydd efo paned o de.

**Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?**  
Efallai, faint o arian dw i'n gwario ar ddillad i fy hun wrth Huw, ond ma' angen cael y dillad newydd er mwyn hysbysebu'r dillad i'r siop!!

**Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?**  
Ar ben y pit silwair, sa i cweit yn gwybod shwt ond dwi'n credu bod e wedi bod yn gyfuniad o gwmni merched a fodca..

**Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?**  
Agor y siop gyda Janice yn Llambled.

**Ac yn bersonol?**  
Gorffen prifysgol. Roedd mam-gu yn jocan bydde hi wedi mynd cyn i fi raddio.

**Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?**  
Llawer o golur.

**Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?**  
Rhedeg lan a lawr grisiau'r siop yn fy sodlau uchel 5 modfedd.

**Beth yw'r cyngor gorau gest ti?**  
Gellir bod mewn sefyllfa lawer iawn gwaeth.

**Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.**  
Symud i Lundain. Dysges i fwy mewn 2 flynedd gyda chwmni mawr na fydden i wedi dysgu mewn Prifysgol a'r Chweched. Rhoddodd y profiad yma'r hyder i fi agor siop yn Llambled.

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**  
Trefnus, digynnwrf a gosgeiddig.

**Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?**  
Wit wat, gwyllt a lletchwith

**Pa gar wyt ti'n gyrru?**  
*Sore point*, buodd sbel pan ges i nhynnu off yswiriant y 4X4 am achosi damwain 4 car ar yr M4, ac felly tractor oedd yr unig drafnidiaeth oedd dad yn hapus i fi yrru. Rwy'n credu y cafodd trigolion Cribyn dipyn o sioc (neu ofn) i weld merch mewn siwt yn gyrru Ford New Holland i'r gwaith drwy'r pentre.

**Beth yw dy hoff wisg?**  
Ffrog fach ddu.

**Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?**  
Dylen i ddweud Huw, ond rwy'n credu bydde fe fel y llyfr *Lord of the flies*.

**Sut wyt ti'n ymlacio?**  
Siopa - dyw hyn ddim lot gwahanol

i ngwaith ond alla i ddim eistedd lawr a gwneud dim, ma gormod o bethe yn mynd drwy fy meddwl o beth ddylen i fod yn gwneud.

**Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?**  
[www.style.com](http://www.style.com)

**Sawl tecst y dydd wyt ti hala?**  
Rhwng tecst a e-bost, siŵr o fod 20-30, ond rhai i'r gwaith yw'r rhein. Well gen i siarad â ffrindiau.

**Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn?**  
Slic.

**Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?**  
Ted - neu fel mae e'n cael ei ddisgrifio gan eraill - clwtyn.

**Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?**  
Refyrso treiler a'r tractor, ond mae hyn ar fin newid - dwi'n bwcio gwersi a phrawf treiler er mwyn gallu gyrru'r merched ar flôt yng nghanifal Llambled. *Watch out* Llambled!!!

**Beth sy'n rhoi egni i ti?**  
*Diet Coke* a *Topic* bob bore i frecwast.

**Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?**  
Cylchgronnau Vogue, Elle a Clonc.

**Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?**  
Dal yn Llundain yn *stressed out*.

**Ar beth y gwnest orwario fwyaf?**  
Siaced wen a trims du. Roedd yn eitha costus yn y lle cyntaf, ond waeth na hynny bob tro dw i'n ei gwisgo, mae'n rhaid talu i'w glanhau. Dyw gwyn ddim yn rhy ymarferol ar noswaith mas .

**Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?**  
Anti Janice, heb Janice bydden i ddim yn gweithio ym myd y ffasiwn.

**Arferion gwael?**  
Edrych ar glustiau pobl pan dw i'n siarad â nhw, yn enwedig os oes clustlysau llachar gyda nhw.

**Pa sioc alli di roi i ddarllenwyr Clonc amdanat ti dy hun?**  
Mae gen i groen annormal sy'n ymestyn dros fy mhenelin.

**Pa bwerau arbennig hoffet ti?**  
Dyblygu fy hun er mwyn cael popeth wedi ei wneud.

**Ble fyddi di mewn deng mlynedd?**  
Dal yn y byd ffasiwn. Ond wedi ehangu gobeithio.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf.

**Rhys Evans**, Llanybydder



# Llanybydder

## Bedyddwyr

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu flynyddol Bedyddwyr Glannau Teifi fis Tachwedd diwethaf yng Nghapel Aberduar, a phenderfyniad pwyllgor y gymanfa y tro hwn oedd ei bod am godi arian i Sioe'r Cardis 2010 ac i eisteddfod yr Urdd 2010 sydd i'w chynnal yn Llanerchaeron. Arweinydd y gymanfa oedd Tristan Lewis o Deganwy gyda Rhiannon Lewis wrth yr organ. Rhai o ieuencid y capel sef Llŷr Davies a Lyn Jenkins wnaeth gyflwyno y rhannau arweiniol gyda Cerys Jones yn llywyddu'r noson yn hwylus iawn. Cyflwynwyd y swm o £113.50 i sioe'r Cardis a £123.50 tuag at eisteddfod yr Urdd.



Jean Davies Hafod-y-gân Llanybydder yn derbyn blodau oddi wrth Ffion Lloyd un o ddisgyblion ysgol Llanybydder ar ôl iddi agor noson goffi Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder ar y 7fed o Fai yn festri Aberduar. Cafwyd noson lwyddiannus iawn. Cadeirydd y Pwyllgor sef Elonwy Davies wnaeth gyflwyno ein gwraig wadd i'r gynulleidfa luosog. Diolchodd Betty Jones ein hysgrifennydd i bawb am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Jean am ei phresenoldeb a'i rhodd at y noson, i blant ysgol Llanybydder a Chôr Lleisiau'r Werin am ein diddanu yn ystod y noson eleni eto.

## Noson i'w chofio

Cynhaliwyd noson lwyddiannus yn y Llew Du Llanybydder ar y 1af o fis Mai. Noson o chwerthin yng nghwmni y diddanwr Dewi Pws Morris ynghyd â cherddoriaeth ardderchog y band Radwm, a chaneuon gan Ryland Teifi a'i dad Garnon Davies.

Trefnwyd y noson i godi arian i Ambiwylans Awyr Cymru ac Ymchwil i Sclerosis Ymledol gan Doreen Williams a Delyth Evans.

Enillwyd y gwobrau raffl gan Meryl Lloyd, Danny Davies(2), Dai Morgan, Hedydd Wilson, Eirian Jacob, Jennifer Jones a Julie Jones. Rhoddwyd nifer fawr o'r gwobrau yn ôl i'w gwerthu. Gary Rees fu'n gwerthu a chafodd hwyl ar y gwaith. Yr oedd Arwel a Sonia Morgan Siop

y Bont wedi rhoi cerflun o ddau aderyn wedi ei wneud o siocled i'w werthu. Gwerthwyd hwn am £330 yn yr ocsiwn. Diolchwyd i bawb am wneud y noson yn gymaint o lwyddiant gan Bet Davies ac aeth pawb adref wedi mwynhau ffrathineb Dewi, y canu a'r gerddoriaeth fendigedig. Yr oedd yr elw ychydig dros fil o bunnoed tuag at y gronfa.

## Ysgol Feithrin Llanybydder

Cynhelir Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8y.h. ar 22 Mehefin. Gwobrau ariannol. Croeso cynnes i bawb. Elw tuag at yr ysgol Feithrin.

## Diolch

Dymuna Meinir Williams, 7 Heol-y-Gaer ddiolch yn fawr i bawb am yr holl gyfarchion ac anrhegion dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

## Cwmpsychant

## Diolch

Dymuna Owain Jones, Blaenhirbant-Uchaf ddiolch i bawb am y consyrn drosto yn dilyn ei anffawd drwy ffonio, galw, y rhoddion a dderbyniodd neu ddanfon cerdyn o wellhad. Mae'n gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

## 80 oed

Yn ystod y mis dathlodd Mrs Betty Jones, Delfan ei phen-blwydd yn 80oed. Gobeithio y cewch iechyd am flynyddoedd lawer eto.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Brian a Mair Potter, Rhoslyn yn ddod yn dad-cu a mam-gu i Erin Mair, merch fach i Cerys a Llyr yn Nrefach.

## Arholiad Ysgol Sul

Yn ystod mis Mawrth cynhaliwyd Arholiad Ysgol Sul yng Nghapel-y-Cwm ac yn ddiweddar trosglwyddwyd tystysgrifau i'r plant hynny: Dan 7: Bethan Jenkins, Beca Jenkins, Luke Jenkins, Lisa Jenkins, Luned Jones, Lois Jones, Hafwen Davies, 7 - 9 oed: Sioned Fflur Davies, Osian Davies, Owain Jones. 9-11 oed: Meleri Jenkins a Cerys Pollock cydradd cyntaf.

## Corsgoch

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu y diweddar Dai Jenkins, Tynrhos a fu farw yng Nghartref Maes-y-felin, Drefach ar ddechrau mis Mai.

## Gwellhad Buan

Treuliodd Eryl Jones, Gorwel rai diwrnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio dy fod erbyn hyn dipyn yn well.

# Llanfair

## Pen-blwydd hapus

Hoffwn estyn llongyfarchiadau a phenblwydd hapus i un o fenywod mwyaf hoffus y pentref sef Barbara Tucker, Llethr Villa. Mae Barbara yn dod yn wreiddiol o ardal Llundain ac wedi byw yn ein plith ers bron deugain mlynedd. Buodd ar un adeg yn coginio i blant ysgol Llanfair. Mae Barbara yn fenyw arbennig, yn nofio yn rheolaidd, ymweld â'r ganolfan hamdden ac yn dal i yrru car. Mae hi yn cefnogi bron popeth sydd yn mynd ymlaen yn y pentref. Erbyn i chi ddarllen hwn bydd parti mawr wedi bod yn y neuadd. Cewch glywed mwy am hyn y tro nesaf.

## Llwybr yr Eglwys

Os byddwch yn ymweld â'r Eglwys Santes Fair a'r fynwent yn yr wythnosau nesaf fel welch fod y llwybrau wedi cael eu hatgyweirio. Roedd rhai mannau wedi treulio acyn eitha peryglus.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Charlotte Evans, Y Ddôl, ar basio ei phrawf gyrru. Da iawn ti.

## Edrych ymlaen

Ar Fehefin 11eg/12eg cynhelir Gŵyl Cwrw a Barbiciw ac ar Oorffennaf 17eg bydd Gŵyl y Pentref.

## Pencarreg

## Cydymdeimlad

Trist fu clywed am farwolaeth Angela, chwaer annwyl Herbert Morgans, Rhydowen. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu galar.

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth Beti Williams, Dolgwm Isaf gynt. Cydymdeimlwn a'i gŵr William, ei mab Ioan a'i merch yng nghyfraith Maxine yn eu colled a'u galar. Cydymdeimlwn â'r teulu eto yn dilyn y newyddion trist am farw Eifion, brawd Beti a hynny ond deuddydd yn ddiweddarach.

## Diolch

Dymuna Herbert, Glenys a'r teulu, Rhydowen, Parc-y-rhos ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod yr adeg trist o golli ei chwaer Angela. Ar adeg trist fel hyn mae pob gair o gysur, cerdyn neu alwad ffôn a gwybod fod pobl yn meddwl amdanoch yn help i leddfu'r boen.

Cancer y Fron - BINGO -  
Nos Lun, 14eg o Fehefin 2010  
Clwb Rygbi Llanybydder 8:00y.h.  
Gwobrau ariannol.  
Croeso cynnes i bawb.  
Elw tuag at Ward Meurig  
Aberystwyth Prawf Bron Cymru.

## Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,  
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

## Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambled  
Ffon: 423300 Ffacs: 423223  
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob  
gwasanaeth cyfreithiol  
Apwyntiadau hwyr neu  
yn eich cartref

**W.D. Lewis**  
*a'i Fab*

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,  
Llanbedr Pont Steffan

Am holl fwydydd a nwyddau  
amaethyddol, cysylltwch â ni.

**WILLIAMS  
& BOURNE**  
CYFREITHIWR.  
COMISIYNNWR LLWON

Trosglwyddiadau a phob  
gwasanaeth cyfreithiol.  
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,  
Llambled**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,  
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

## CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar  
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion  
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher  
01570 481230 / 07967 559683



# Evan Charles Evans "Charlie Ocsiwnyr" 1918–2010



Yn ystod mis Mai fe fu farw un o gymeriadau yr ugeinfed ganrif, ac yntau bron a chyrraedd 92 oed.

Fe'u ganwyd yn un o naw o blant i David ac Hannah Evans, Dolau Canol, ac yn ystod ei oes fe wasanaethodd ei wlad a'i gymuned – yn arbennig yn y cylch amaethyddol.

Yn fachgen un ar ugain oed, fe'i galwyd i ymuno â'r fyddin ac fe wasanaethodd gydag urddas yng Ngogledd Affrig, Aifft a'r Dwyrain Canol (soniodd lawer am Baghdad) ac hefyd yn Ewrop gan gynnwys Dunkirk.

Ar ôl dod yn ôl yn saff o'r rhyfel, fe ymunodd â'r cwmni teuluol o arwerthwyr – Brodyr Evans – gan gynorthwyo ei wncwl Tom (T.R) a oedd hefyd yn ffermio Dolau Uchaf. Fel bron pob bachgen ifanc datblygodd ddiddordebau eraill ac fe briododd â Carol – un o ferched Bryngrannod – ac aethant i fyw i Dolau Ville. Yn anffodus bu Carol farw yn y flwyddyn 1970 a bu wrth ei hunan am rai blynyddoedd.

Maes o law daeth straeon ei fod yn ymwelydd cyson yn y Manor, Maesycrugiau ac fod ganddo ddiddordebau bob ochr i'r bar – yn enwedig yn y perchennog Eluned Davies. Cyn hir priododd y ddau ac adeiladu "Tŷ'r Ardd" nepell o'r Manor lle bu'r ddau yn byw yn hapus "Nes i angau eu gwahanu". Dyna a ddigwyddodd gan i Eluned farw ond blwyddyn yn ôl, ac ni ddaeth Charles yn gyfangwbl dros y sioc a'r siom o'i cholli.

Yn y blynyddoedd cynnar roedd Charles a phawb arall yn gweithio mewn swyddfa o bren ar y mynediad i orsaf Llanybydder- ryw ganllath o'r Mart, gyda stôf fawr gas ar ganol y llawr i'w cynhesu. Yn y 60au, a'r orsaf yn cau, penderfynodd Charles fod rhaid symud, ac yn ffodus daeth Mart Elva ar werth, a oedd drws nesaf i'r mart ac fe'i prynwyd – ac mae'r cwmni yno tan heddiw.

Yn y dyddiau hynny y prif fusnes oedd gwerthu defaid ac yr oedd yr arwerthiannau yn cael eu cynnal yn yr Hydref gyda miloedd o ddefaid yn dod bob dydd Llun yn y cyfnod prysur yna ac yr oedd yn beth cyffredin i weld Charles yn dechrau gwerthu yn y bore ac nid yn gorffen tan 5 o'r gloch – heb doriad. Yr oedd hefyd yn falch iawn o'r sêl Geffylau bob mis a'i bob yn un o'r rhai mwyaf yn y wlad. Er na fu iddo berchen ceffyl na marchogaeth ceffyl erioed, yr oedd ei wybodaeth am geffylau gyda'r gorau.

Fe gyflwynodd ei fywyd i Fart Llanybydder ac yr oedd yn rhaid fod y swyddfa a'r mart â'u drysiau bob amser ar agor. Mynychai y swyddfa 7 niwrnod yr wythnos – hyd yn oed ar Ddydd Nadolig. Beth bynnag oedd y tywydd roedd yn rhaid fod drysau'r mart ar agor i'r cwsmeriaid. Mae sôn amdano ar fore o eira mawr yn dod i fyny o Maesycrugiau mewn "Link Box" tu ôl i dractor er mwyn fod y lle ar agor.

Yr oedd yn agos iawn at y staff, ac mae'r ffaith bod rhai ohonynt wedi bod gydag ef am dros 50 mlynedd yn cadarnhau hynny.

Yn anffodus, dyma ddiwedd cyfnod ond gobeithir fod Mark a'r holl staff yn cydweithio i ddechrau cyfnod newydd ac i barhau gyda'r sail a osodwyd gan Charles Evans drwy wasanaethu pobl yn onest ac yn drylwyr.

Diolch am gael adnabod gŵr bonheddig – mae yna filoedd a fyddai yn fodlon dweud Amen i hynny.

## O'r Cynghorau Bro



### Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Mary Thomas, Clerc: Gwennan Davies, Cynghorydd Sir: Haydn Richards. Cyfarfu'r Cyngor ar 18 Mai 2010.

Croesawyd pawb i Neuadd y Pentref, Drefach gan y Cadeirydd.

Hysbyswyd y Cynghorwyr bod gwydr newydd wedi cael ei roi fewn yng nghysgodfan Cwrtnewydd. Mae'r Cyngor Sir wedi cydnabod yr angen i adnewyddu'r system ddraenio ger Frongelli er mwyn atal dwr rhag cronni ar yr heol. Maent hefyd wedi cytuno i gwrdd a'r Cynghorwyr ger Capel Brynteg er mwyn asesu'r sefyllfa ddwr yno.

Derbyniwyd adroddiad gan y Cadeirydd am y cyfarfod am y Cynllun Datblygu Lleol yn Aberaeron yn ddiweddar. Dywedwyd bod y Cyngor ar hyn o bryd yn asesu'r angen am dai yn y prif aneddiadau cyn dechrau ystyried aneddiadau llai.

### Cyngor Bro Pencarreg

Cadeirydd: Eiddyg Jones, Clerc: Eric Williams, Cynghorydd Bro a Sir: Eirwyn Williams, Cynghorydd Sir: Fiona Hughes. Cyfarfu'r Cyngor ar 10 Mai 2010.



Datganodd y cynghorwyr eu dicter bod y difrod a achoswyd i'r wal rhwng Sgwâr Cwm-ann a phont Teifi yn dal heb ei hatgyweirio gan y Cyngor Sir. Aeth chwe mis heibio bellach ers i'r Cyngor Bro dynnu sylw'r Sir at gyflwr y wal ac erbyn hyn mae dros 50 o feini yn aros i'w hailosod. Hyderir yn fawr y gwelir gweithredu pendant ar y mater hwn yn fuan. Mae'n drist fod crefftwaith mor dda yn cael ei amharchu gan fandaliaid.

Ysgol Feithrin Coedmor: Penderfynwyd rhoi rhodd ariannol i'r adran i brynu adnoddau. Gardd Goffa: Mae eisiau gwneud gwaith cynnal a chadw o amgylch y Gofgolofn. Penderfynwyd gofyn am bris gan grefftwyr lleol. Cynllunio: Nid oedd gwrthwynebiad i gais cynllunio i adeilad i wartheg a defaid yn Tan-y-foel, Cwm-ann.

### Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Tom Jones, Is-gadeirydd: Emyr Evans, Clerc: Eirlys Davies, Gohebydd y Wasg: Dewi Davies, Cynghorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 10 Mai 2010.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Gymunedol Llanllwni am 8yh, pan gyflwynwyd y fatolen flynyddol i'r aelodau ac yna y cyfarfod arferol i ddilyn am 8.30yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a diolch i'r aelodau am eu

cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y flwyddyn. Dymunwyd yn dda i'r Cadeirydd newydd Emyr Evans. Diolchwyd i Linda Evans am ei gwaith yn ystod y flwyddyn ac hefyd i Eirlys Davies, Clerc y Cyngor.

Aeth y cadeirydd newydd i'r gadair a pharhau â'r cyfarfod. Diolchwyd i Tom Jones am ei waith o fewn y gymuned dros y blynyddoedd. Etholwyd Tom E Bowen yn is-gadeirydd.

Cadarnhawyd bod Tom Jones wedi archwilio'r maes chwarae a'r adnoddau yn ystod yr wythnosau diwethaf, a bod bin sbwriel wedi cyrraedd.

Roedd y Clerc wedi cyfarfod â'r cyfreithiwr i drafod y Maes Chwarae. Roedd y gweithredoedd erbyn hyn yn y swyddfa, ond yr oedd angen cael cyfarfod arall. Penderfynwyd bod Eric Davies a Eurig Thomas yn mynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.

Dymunwyd yn dda i'r aelodau a gafodd eu hethol i fynychu cyfarfodydd pwyllgor y melinau gwynt. Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd bod un cyfarfod wedi cael ei gynnal i sefydlu'r pwyllgor gweithredol ac y bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal ddiwedd mis Mai.

Roedd rhai o'r aelodau wedi mynychu arddangosfa RWE Npower renewables ym Mrechfa ac ym Mhencader.

Nodwyd bod angen cysylltu â'r Cyngor Sir i gael arwyddion 'dim yn addas i gerbydau trwm' ar hewl Henfaes; allan i'r groesffordd islaw'r Manor; ac o'r groesffordd honno lawr i'r Eglwys - oherwydd y pontydd cul.

Nodwyd bod angen i BT atgyweirio'r gwter o flaen Tegfan oherwydd ei fod yn beryglus.

Awgrymwyd gan Linda Evans bod bin poteli yn cael ei osod ar bwys y blwch ffôn yn Bryndulais am gyfnod prawf; cytunwyd i hyn gan y cynghorwyr.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, 12 Gorffennaf 2010 am 8yh.

### Cyngor Cymuned Llangybi

Cadeirydd: D. Jones, Clerc: Mrs Mair Spate, Cynghorydd Sir: Odwyn Davies. Cyfarfu'r Cyngor ar 28 Ebrill 2010

Talwyd aelodaeth 'Un Llais Cymru'.

Ystyriwyd cais cynllunio gan Fferm Denmark.

Bydd dau o'r cynghorwyr yn mynychu'r Cyfarfod Datblygu Lleol yn Penmorfa.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Heddlu Dyfed Powys ynghylch cyflogi lleiafrifodd ethnig.

Mynegwyd anffodlonrwydd ynghylch anallu'r Heddlu ei hun i ateb y ffôn yn Gymraeg. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ddiwedd mis Mai.



# Llanwnnen

## Ysgol Llanwnnen

Derbyniwyd canlyniad y Cwis Llyfrau, daeth tîm 'B' yn gydradd ail.



Aelodau'r tîm oedd: Sophie Herron, Ellen Jones, Catrin Rosser a Gwenllian Jenkins. Roedd marc y tîm arall hefyd yn dda iawn. Aelodau'r tîm hynny oedd Ffion Jenkins, Cerian Jenkins, Twm Ebbsworth a Ryan Holmes. Da iawn chi blant a diolch i Miss Nia Davies am roi o'i hamser i'ch dysgu.

Ar ddiwrnod olaf mis Ebrill cynhaliwyd diwrnod i godi arian i Dŷ Hafan, hosbis i blant yng Nghaerdydd. Cafwyd taith feicio nodedig a chafodd y plant ddiwrnod i 'wisgo lawr'. Rydym wedi codi dros £500 tuag at yr apêl.



Cafwyd ymweliad gan Mr & Mrs Alfred Crowley prynhawn dydd Mawrth, Mai 11eg. Roedd Alfred wedi bod yn efaciwi yn Llanwnnen nôl yn y '40au adeg yr Ail Ryfel Byd. Roedd y ddau wedi bod yn nathliadau canmlwyddiant yr ysgol nôl yn 2008 ac roedd y ddau am ddod nôl i weld yr ysgol unwaith eto. Cafwyd rhodd gan y ddau.

Ers dechrau'r mis rydym wedi cael cwmni dwy fyfyrwraig sef Carys Tobias o Goleg y Drindod a Mair Campbell o Brifysgol Aberystwyth. Erbyn hyn hefyd rydym croesawn Mrs Lynwen Holmes fel aelod o staff yr ysgol. Mae'r tair wedi ymgartrefu yn dda gyda ni.

Yn ddiweddar, mae disgyblion Bl. 5 a 6 wedi bod yn brysur iawn yn plannu llysiau yn ein gardd sydd ar dop y cae.

Rydym i gyd yn edrych ymlaen at weld 6 o ddisgyblion yr ysgol ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron ar y nos Fawrth a'r nos Fercher wrth iddynt fod yn rhan o gast y Sioe Gynradd sydd yn seiliedig ar waith y diweddar T. Llew Jones.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu'r diweddar David Baker, Brynteg a fu farw yn ystod y mis.

## Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Mrs Ray Lewis, Hafan sydd wedi treulio rhai diwrnodau yn Ysbyty Glangwili.

## Llongyfarchiadau

Yn ystod y mis cafodd Mrs Joyce Williams, Pleasant Hill newyddion da wrth iddi ddod yn hen fam-gu unwaith eto, merch fach Erin Mair i Cerys ei hwyras a'i gŵr Llyr yn Nrefach.

## Sefydliad y Merched

Mrs Yvonne Davies, oedd ein siaradwraig wadd ym mis Ebrill. Dyma ail ymweliad Yvonne â Sefydliad a'r tro yma cafwyd hanes ganddi o Stryd Fawr, Llambod - Ochr Neuadd y Dref. Mae hanes lleol bob amser yn ddiddorol iawn, ac rydym yn ddiolchgar iawn i Yvonne am rannu gyda ni ei

gwybodaeth drylwyr am un o strydoedd adnabyddus ein hardal.

Mis Mai oedd amser ein gwibdaith flynyddol ac eleni aethom i ymweld â Chanolfan y Barcud Coch yn Nhregaron. Braf iawn oedd gweld cywaith a wnaed o ddefnydd a gasglwyd gan blant ysgolion cynradd yr ardal wrth ymweld â Chors Caron, hefyd y tapestri hyfryd o waith gwragedd Tregaron a'r Cylch. Cyn mynd am swper treulwyd rhyw awr yng Nghanolfan Grefftau Rhiannon ac yna ymlaen i fwyty Clwb Carafannau Stag's Head lle mwynhawyd swper blasus iawn i orffen y diwrnod.

Diolchwyd yn gynnes i Mrs Ceinwen Roach a Mrs Mary Davies am drefnu'r daith gan ein Llywydd Mrs Gwen Davies.

Enillwyd cystadleuaeth y mis gan Miss Elsa Thomas.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Nghegin Gareth ar ddydd Llun, 7fed o Fehefin am 2:00y.p.

## Trip Henoed Llanwnnen

Bydd Trip Henoed Llanwnnen yn mynd eleni ar ddydd Mercher, 30ain o Fehefin lawr i Sir Benfro. Bws yn gadael Llanwnnen am 9:00y.b. Enwau i Gwen Davies, Gomer Lewis neu Ann Hughes mor fuan â phosib.

## O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Ychydig wythnosau yn ôl, fe gyhoeddodd Cyngor Sir Ceredigion adroddiad ar gynlluniau i gau ysgolion cynradd yn ardaloedd Tregaron a Llandysul gan greu ysgolion newydd ar gyfer disgyblion 3 – 19 oed yn yr ardaloedd hynny. Mae'r cynlluniau yma yn arloesol ac a fydd yn golygu newid mawr i'r modd mae addysg yn cael ei ddarparu yn y cymunedau o dan sylw. O ganlyniad, mae'n hanfodol fod y Cyngor Sir yn ymgynghori'n drylwyr ar y cynlluniau. Rwyf innau eisoes wedi mynychu cyfarfod cyhoeddus yn Nhregaron ar y cynlluniau a chwrdd â rhai o rieni'r ardal er mwyn trafod eu pryderon, ac fe fyddaf yn cwrdd â rhieni yn ardal Llandysul i glywed eu barn hwythau.


Daeth newyddion da i'r Llyfrgell Gyhoeddus yn Aberystwyth yn ddiweddar wrth i'r Gweinidog Treftadaeth gyhoeddi y bydd £300,000 ar gael ar gyfer gwella cyfleusterau'r gwasanaeth. Mae yna sôn ers tro ynghylch cynlluniau i symud y llyfrgell o'i lleoliad anaddas presennol i Neuadd y Dref, ac rwy'n gobeithio y bydd y cyllid sylweddol hwn yn golygu y gall hyn nawr ddod yn realiti.

Ymwelodd grŵp o fyfyrwyr sy'n astudio Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth â'r Senedd yn ddiweddar ac roeddwn yn falch iawn o'r cyfle i gael cwrdd â nhw. Roedd gan y bobl ifanc gryn ddiddordeb yng ngwaith y Senedd, ac yn benodol yn y ffordd mae datganoli wedi newid y system wleidyddol yng Nghymru.

Yn olaf, mae'r buddsoddiad ar y cyd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a BT i uwchraddio'r system ffôn yng Nghilcennin er mwyn medru cynnig gwasanaeth band eang wedi bod yn llwyddiant gyda nifer o drigolion lleol nawr yn cysylltu'n ddidrafferth â'r we. Roeddwn felly'n falch i dderbyn gwahoddiad i ymweld â'r pentref a siarad yng nghyfarfod blynyddol Cilcennin Cyntaf, cwmni cydweithredol oedd wedi braenu'r tir ar gyfer y buddsoddiad ac ymgyrchu am well cysylltiad â'r rhyngwrdd i'r ardal. Fodd bynnag, mae yna nifer o ardaloedd yn y sir sy'n parhau i fethu derbyn gwasanaeth band eang ac fe fyddaf yn parhau i ymgyrch i sicrhau gwell cysylltiad â'r we iddynt hwythau.

# FISHERS

# ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos iau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

## Cellan, Llambod

01570 422895

### Ymgynghorwyr Yswiriant

## Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur	Yswiriant tŷ/cynnwys
Teithio	Fferm a busnes
Cyfrifoldeb	Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

**Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr  
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA**  
**Ffôn: 01570 422401**  
**Ffacs: 01570 422562**  
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority



# Yn y Gegin gyda Gareth



## Lluniaeth a Llawenydd yn Llanerchaeron.

Ydy mae 'Cegin Clonc' wedi cyrraedd Bro Eisteddfod hudolus a hyfryd yn nyffryn Aeron. Bydd fy nghegin symudol sef 'Cegin Chi a Fi' yma am yr wythnos a byddaf i a Hazel Thomas yn arddangos rysetiau ar glos fferm yr 'Ymddiriedolaeth Genedlaethol'. Gobeithiwn wneud y gorau o gynnyrch lleol Cymreig. Yn naturiol fe gewch chithau ddigon o gyfle i flasau ein bwydydd.

Felly dewch yn llw, atom ni i brofi 'Blas yr Eisteddfod'.

Pob hwyl wrthyf fi, Hazel, a Mr Urdd,

**Gareth**

## Pigau ar y Maen – Safri.

### Cynhwysion

- 200 gram o flawd codi
- 100 gram 4 oz o fenyn Cymreig
- 1 ŵy, Ychydig o laeth
- Hanner cenhinen wedi'i thorri'n fân
- 1 llond llwy de o fwstard grawn cyflawn
- 1 llond llwy bwdin o olifiau du wedi'u torri'n fân
- Halen a phupur,
- 50 gram o gaws wedi'i gratio



### Dull

- Rhydyllwch y blawd i fowlen a rhwbio'r menynd iddo i greu briwsion mân
- Ffriwch y genhinen mewn ychydig fenyn a gadewch i oeri
- Ychwanegwch at y gymysgedd ynghyd â'r olifiau a'r caws.
- Cymysgwch yr ŵy, y llaeth, halen a phupur, ac arllwyswch i'r gymysgedd i ffurfio toes meddal. Rholiwch allan a'i torri'n bigau trionglog.
- Cynheswch y 'maen', a choginiwch y pigau am tua 4 munud bob ochr nes eu bod yn euraidd.
- Gweinwch y pigau gyda chaws a phicl Cymreig.

## Potiau Picnic Porc.

### Cynhwysion

- 225 gram o fenyn
- 250 gram o ham o ansawdd da wedi'i goginio
- 1 llond llwy de o fwstard grawn cyflawn
- Ychydig o nytmeg ffres
- Ychydig o berlysiau ffres wedi'u torri'n fân
- 2 goes o riwbob
- Ychydig fricyll wedi'u torri'n fân



### Dull

- Toddwch y menynd mewn sosban, a defnyddiwch lwy i godi'r ewyn gwyn oddi ar yr wyneb.
- Rhowch yr ham mewn prosesydd bwyd a'i falu'n fras ac arllwyswch hanner y menynd iddo. Gosodwch mewn powlen.
- Ychwanegwch y mwstard, nytmeg a'r perlysiau pupur a halen. Rhannwch rhwng y potiau.
- Torrwch y riwbob yn ddarnau a'u coginio yn y menynd a'r bricyll. Gosodwch ar wyneb y potiau. Mwynhewch gyda'r 'pigau safri'

## Bisgedi caws ac eog Cymreig

### Cynhwysion

- 75 gram o eog Cymreig wedi'i fygu
- 75 gram o gaws meddal
- 1 llond llwy bwdin o saws rhuddygl (horseradish)
- Hanner sudd 1 leim
- 1 llond llwy de o 'ddil' wedi'i dorri'n fân
- Ar gyfer y bisgedi
- 110 gram o flawd plaen
- 110 gram o fenyn cymreig
- 25gram o gaws cryf wedi'i gratio
- Pinsied o bupur cayenne.



### Dull

- Trowch y ffwrn i 180° 350° Nwy 4
- Rhowch y blawd a'r cayenne, yr halen a phupur a'r menynd mewn powlen a'u malu nes yn friwsion.
- Ychwanegwch y caws wedi'i gratio a chymysgwch y cyfan i wneud toes meddal. Rholiwch allan ar y bwrdd wedi'i sgeintio â blawd. Defnyddiwch dorrwr i greu cylchoedd. Pobwch am 12 – 15 munud.
- Cymysgwch y caws meddal, y rhuddygl a'r sudd leim a'u hychwanegu at yr eog a'r dil.
- Gweinwch gyda'r bisgedi ac addurn o ferw dŵr a thomatos coch i greu lliwiau'r Urdd.

# MiS y PaPur NewYdd

## Colofn Dylan Iorwerth

### Colli profiad, cael un arall

Roedd pawb a aeth yno yn dweud bod y gweddill ohonon ni wedi colli profiad. Nid mwynhad yn hollol, ond rhywbeth i'ch siglo.

Drama oedd hi, ac un wahanol iawn i'r hwyl a'r adloniant ysgafn sydd, fel rheol, ar y llwyfan yno. Ac mae angen y ddau beth.

Cwmni Theatr Bara Caws wedi dod i lawr o'r Gogledd cyn belled â Theatr Felin-fach gyda'u cynhyrchiad diweddar, Deryn Du. Ac roedd honno ymhell iawn o'u sioeau clybiau nhwthau.

Y canwr a'r actor, Bryn Fôn, oedd wedi cyfieithu'r ddrama o'r Saesneg ac roedd yntau'n actio ynddi, yn un o ddim ond dau ar y llwyfan. Drama fach, o fewn sefyllfa fach, ond yn delio â phynciau mawr.

Yr actor arall oedd Fflur Medi Owen, y ferch a actiodd fersiwn benywaidd o Iesu Grist yn nrama Aled Jones Williams, Iesu! Ac roedd ei pherfformiad hi, meddai pawb, yn amhosib ei anghofio.

Stori oedd hi am ddyn canol oed a dynes gymharol ifanc yn cwrdd ar ôl blynyddoedd maith ac yn ail-fyw digwyddiad pan oedd hi yn 12 oed ac yntau'n ei cham-drin yn rhywiol.

Yn ôl pob sôn, roedd hi'n un o'r dramâu hynny oedd yn effeithio arnoch chi mewn dwy ffordd yr un pryd - yn gwneud i chi deimlo'n hollol wag ond hefyd yn llenwi eich meddwl â thryblith o feddyliau cymysg.

Os dalltais i'n iawn, mewn un stafell fach yr oedd hi'n digwydd ac, yn union fel y sosban bwysau – y pressure cooker – ar y stôf, mae gwasgu emosiynau i le bach yn eu dwysáu nhw hyd at ffrwydro.

Welais i ddim o Deryn Du ... yr un broblem o gael drama'n teithio o le i le ydi mai dim ond am un noson y mae hi yn unrhyw fan. Os ydi'r noson honno'n anghyfleus, a'r llefydd eraill yn rhy bell, mae'r cyfle'n cael ei golli.

### Drama arall

Ond mi welais i ddrama arall yn Felin-fach a phethau'n clymu'n ddigon taclus yn ei gilydd. Drama arall oedd honno, gan awdur Iesu!, Aled Jones Williams ... drama arall am ddau gymeriad wedi'u rhoi efo'i gilydd mewn un ystafell a'r un o'r ddau yn gadael. Chwilys oedd ei henw, yr hen enw Cymraeg am yr Inquisition neu hyd yn oed am sesiynau holi mewn carchardai rhyfel fel Guantanamo.

Wel, efallai, mai dau oedd yna; efallai dim ond un. Wrth i un o'r ddau gymeriad baratoi i fynd i roi sgwrs am lenyddiaeth mewn achlysur pwysig, dyma ddyn arall yn ymddangos yn sydyn ... dyn arall, neu ochr arall ar gymeriad y cynta'.

Dim ond nhw eu dau oedd wedyn. Un yn meistrol'r llall yn llwyr ar y dechrau ac yn chwarae gyda'i deimladau a'i ofnau. Yn fygythiol weithiau, wedyn yn chwareus ac yna'n sinistr.

Rhaid i chi wrando'n ofalus ar ddramâu Aled Jones Williams ac mi fyddai'n braf cael copi o'r sgript i'w ddarllen yn union wedyn, er mwyn cael cofio'r pigladau o ddoethineb sydyn a'r sylwadau deifiol ar ein cyflwr ni heddiw.

Cryfder ei gymeriadau fo, yn ddrwg a da, ydi eich bod chi bob hyn a hyn yn gweld eich hunan ynddyn nhw. Mae'n swnio bod yr un peth yn wir am Deryn Du, er gwaetha'i phwnc ofnadwy.

Dyna un peth y mae drama a llenyddiaeth yn gallu ei wneud – ein gorfodi ni i wynebu rhannau ohonon ni ein hunain nad ydan ni eisio'u cydnabod. A, thrwy hynny, gwneud i ni gydymdeimlo, heb orfod cytuno chwaith.

Doedd yna ddim llawer o gynulleidfa i Chwilys; roedd hi'n haeddu llawer mwy. Ond, os bydd dramâu'n dechrau dod yn gyson i Felin-fach unwaith eto, mi awn ni i'r arfer o fynd a neilltuo'r nosweithiau i wneud.

Dyna un peth da sydd wedi dod o'r holl waith sy'n digwydd mewn theatrau mawr ar hyd a lled Cymru. Oherwydd hynny, mae'r cwmnïau wedi gorfod dechrau chwilio am lefydd gwahanol.

Welais i ddim o'r Deryn Du, ond o leia' mi ges i'r cyfle.



**Cegin Gareth**  
Goedwig  
Llanbedr P.S.  
SA48 7JP  
01570 422 313

*Blodau*  
*Caccennau*  
*Dathliadau*  
*Partion*



# Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan



Ar drothwy'r Etholiad Cyffredinol cafodd myfyrwyr y chweched gyfle unigryw i holi ymgeiswyr Seneddol Ceredigion. Daeth ymgeiswyr o bum plaid i'r ysgol i wynebu cwestiynau oedd o bwys i bobol ifanc. Yn bresennol oedd Mark Williams o'r Democratiaid Rhyddfrydol, Penri James o Blaid Cymru, y Llafurwr Richard Boudier, y Ceidwadwr Hugh Evans ac Elly Foster o'r Blaid Werdd.



Roedd nifer o'r disgyblion yn pleidleisio am y tro cyntaf yn yr etholiad, a'r pynciau gafodd eu sylw oedd ffioedd Prifysgol, addysg yng Ngheredigion, dyfodol amaeth, swyddi lleol, prisiau petrol, gostwng yr oedran pleidleisio a di-faterwch etholwyr.

Yn ôl y Prifathro, Dylan Wyn, roedd yn gyfle gwych i'r myfyrwyr i gael golwg arbennig ar bolisiau'r gwahanol bleidiau." "Ry' ni wastad yn awyddus i gynnig profiadau amrywiol i'r bobol ifanc, ac roedd hwn yn ddigwyddiad buddiol iawn," meddai. "Roedd y disgyblion yn llawn brwdfrydedd, a hoffwn ddiolch o galon i'r ymgeiswyr am ddod i'r ysgol ar adeg mor brysur."

Llongyfarchiadau i Lani Cossins o flwyddyn 13 sydd wedi cael ei dewis i fod yn aelod o Bwyllgor Perfformio a Chyfansoddi Dyfed. Pob hwyl iddi yn ei gwaith.

Bu'r gerddorfa yma yn cwrdd bob nos Lun drwy gydol y tymor. Ar nos Lun y 15fed o Fawrth buont yn perfformio yn Neuadd Goffa Aberaeron. Roedd y 'repertoire' yn eang yn cynnwys cerddoriaeth Handel, Tchaikovsky a Holst. Tomos Harries Bl.13 Ffidil Blaenwr y Gerddorfa; Lani Cossins Bl.13 Allweddell/Continue; Llion Thomas Bl.9 Ffidil; Jonah Choi Bl.7 Ffidil; Hannah James Bl.7 Ffidil.

Ar ôl sefydlu cwmni i werthu crysau polo yn yr ysgol, cafodd aelodau o'r

grŵp busnes lwyddiant yn rownd derfynol Menter Ifanc Canolbarth Cymru yn Llanfair ym Mualt ar yr 16eg o Fawrth.

Er mwyn cyrraedd y rownd derfynol, bu rhaid iddynt ysgrifennu adroddiad ar eu cwmni, gwneud cyflwyniad a pharatoi arddangosfa. Enillwyd gwobrau am y 'cyflwyniad gorau' ac am y 'defnydd gorau o TG'. Llongyfarchiadau mawr i Catherine Frankton, Gemma Evans, Mary McCambridge, Catrin Langford a Callie Green ar eu llwyddiant.

Ar Fawrth 12fed am 5.00yb, fe aeth nifer o blant Blwyddyn 8 ar daith i Lundain i ymweld â 'Theatr y Globe' a 'Thŵr Llundain' gyda Mrs Anwen Jones, Mrs Edwina Rees, Mrs Carys Phillips a Mr Mark Rees.

Roedd y daith ar y bws yn un hir iawn, ond ar ôl cyrraedd Theatr y Globe, bu'n werth yr aros. Roedd y theatr yn ddiddorol iawn. Er bod yr adeilad gwreiddiol wedi ei ddinistrio yn ystod y Rhyfel Cartref, cafodd ei ail-adeiladu yn ystod yr 1980au, ac yr oedd yn edrych yr un peth â'r theatr wreiddiol. Gwelsom sawl rhan o'r theatr a chlywed hanesion diddorol gan y tywyswyr. Roedd yr amgueddfa yn dda iawn. Roedd yn rhoi cipolwg i ni o fywyd yn oes Elisabeth ac roedd yn dangos y math o wisgoedd oedd yr actorion yn nramau Shakespeare yn eu gwisgo.

Ar ôl cinio cyrhaeddodd Dŵr Llundain, ac fe wnaeth un o'r tywyswyr ddangos ni o amgylch. Roedd yn agoriad llygaid i ni gyd. Gwelsom 'Gemau'r goron', a oedd yn werth eu gweld, gyda diamwntiau anferth ac hefyd arfwisg fawreddog Harri VIII. Roedd yn ddiddorol gweld lle bu'r hen frenhinoedd yn cysgu a gweld y cigfrain yn cerdded o gwmpas. Cawsom beth amser rhydd hefyd a chyfle i gerdded o gwmpas y Tŵr.

Roedd hi'n ddiwrnod gwerth chweil. Cyrhaeddodd adre yn hwyr y nos ar ôl llawer o hwyl ar y bws! gan Gethin Morgan 8P

Gan mai thema gwasanaeth 8P ar ddydd Gwener, Mawrth 19eg oedd 'Sports Relief', penderfynodd y dosbarth fynd ati i gasglu arian i gefnogi'r elusen bwysig yma. Rhoddwyd bocsys casglu arian yn y ffreutur drwy'r wythnos a llwyddwyd i gasglu £40.00! Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i helpu a chefnogi pobl llai ffodus ar draws Prydain a gwledydd y Trydydd Byd. Diolch i bawb a wnaeth ein cefnogi.

Ar Ebrill 16eg cynhaliwyd bore coffi yn yr ysgol i godi arian at 'Help for Heroes'. Mae'r elusen yma yn helpu milwyr Prydeinig sydd wedi cael eu hanafu yn Irac ac Afghanistan. Codwyd £406.48 a diolch yn arbennig i Devion McKenzie o flwyddyn 11 am drefnu'r digwyddiad. Bu wncwl Devion, John McKenzie yn rhedeg yn y 'Marathon des Sables' ar draws anialwch y Sahara yn Moroco yn ddiweddar, ac fe gododd yntau swm sylweddol o arian at yr apêl hefyd.

## Sarn Helen



Nant yr Arian Ponterwyd oedd lleoliad ras y Barcud Coch, Dawn Kenwright a Tony Hall yn ennill y fedal aur yn y ras Deyras Unedig a Dee Jolly yn cael y fedal arian ras Cymru a'r fedal efydd yn y D.U. Hefyd bu Carwyn Thomas a Huw Price yn cystadlu, a'r diwrnod wedyn Glyn Price yn gorffen yn yr ail safle i ddynion 40 yn ras 18 o filltiroedd y Difafol ym Mhontarfynach.

Dydd Llun gŵyl y banc oedd ras hwyl Cwrtnewydd, Michael Davies o glwb Sarn Helen yn ennill mewn 23 munud 28 eiliad, 2il dynion 40 Glyn Price Sarn Helen 23 munud 45 eiliad, 3ydd Mark Dunscombe Sarn Helen 25 munud 48 eiliad, 1af dynion agored Andrew Abbott Sarn Helen 23 munud 44 eiliad, 2il Jamie Higgs 24 munud 17 eiliad, 3ydd Carwyn Thomas Sarn Helen 24 munud 45 eiliad. 1af Dynion 50 Tony Hall Sarn Helen 26 munud 45 eiliad, 2il Gordon Orme Cardigan RC 28 munud 32 eiliad, 3ydd John Sinnett Pembs Harriers 29 munud 35 eiliad. Yn gyntaf menywod 35 Joanne Thatcher Aberystwyth AC 27 munud 43 eiliad, 2il Alyson Hayes Cardigan RC 29 munud 43 eiliad, 3ydd Elizabeth Stieler Aberystwyth AC 31 munud 15 eiliad. 1af menywod agored Dee Jolly Sarn Helen 27 munud 45 eiliad, 2il Gwen Morris 30 munud 16 eiliad 3ydd Sian Roberts-Jones Sarn Helen 31 munud 45 eiliad. 1af menywod 45 Jane Wilkins Cardigan RC 31 munud 27 eiliad, 2il Sue Lloyd Pembs Harriers 32 munud 43 eiliad, 3ydd Elen Page 36 munud 36 eiliad. Sarn Helen enillodd y tîm, Michael Davies, Andrew Abbott, Glyn Price a Carwyn Thomas.

Caitlin Page o glwb Sarn Helen enillodd ras 3000 medr 13 munud 7 eilad, 2il Luned Medi Jones Ysgol Gyfun Llambled 16 munud 12 eiliad, 3ydd Meinir Davies Ysgol Gyfun Llambled 21 munud 22 eiliad, a Daniel Thomas Tregib enillodd ras y bechgyn 14 munud 27 eiliad, 2il Jack Lester 15 munud 51 eiliad, ac yn gydradd drydydd Daniel Morgan a Carwyn Davies y ddau o Ysgol Gyfun Llambled 20 munud 35 eiliad.

1500 medr - Jamie Rollins Pontsian yn ennill 6 munud 19 eiliad, 2il Aled Sion Jones Aberystwyth AC 6 munud 30 eiliad, 3ydd Iwan Evans Cwrtnewydd 6 munud 40 eiliad, a 1af yn y merched Mare Wyn Owen Sarn Helen 6 munud 24 eiliad, 2il Rachel Priddey Pontsian 6 munud 51 eiliad, 3ydd Grace Page Sarn Helen 7 munud 07 eiliad.

Ras goffa Jan Younger 10K yn Neyland Sir Benfro a Michael Davies yn gorffen yn y trydydd safle ac yn ennill y dynion 40 mewn 36 munud 54

eiliad, 40 - Gareth Jones 47 munud 51 eiliad, 53 - Caryl Davies 51 munud 15 eiliad, 60 - Jan Jones 57 munud 40 eiliad a 68 - Allen Watts 1 awr 27 munud 11 eiliad.

Aeth tri aelod i ras Trapp Dawn Kenwright, Mark Dunscombe a Huw Price, Dawn Kenwright yn cael yr ail wobwr i fenywod 50 a Mark Dunscombe yn drydydd dynion 40. Hefyd enillodd Dawn Kenwright y wobwr gyntaf yn ei ras 20 o filltiroedd yn Crewe.

Daeth 72 o redwyr i gystadlu ras fynydd 16.5 o filltiroedd Sarn Helen eleni, cafodd y ras ei noddi gan Brodyr Jones Cigydd Llambled a Dŵr Tŷ Nant. Y tri rhedwyr cyntaf nôl oedd o glwb Sarn Helen, Glyn Price 1 awr 51 eiliad a 36 eiliad ac yn gyntaf dynion 40, 2il dynion 40 Michael Davies 1 awr 56 munud 08 eiliad a 3ydd a 1af dynion agored Carwyn Thomas 1 awr 56 munud 21 eiliad. 3ydd dynion 40 Chris Fulcher Port Talbot 1 awr 56 munud 29 eiliad. 2il dynion agored Gareth Ayers Port Talbot 1 awr 56 munud 37 eiliad, 1af dynion 50 Iwan Edgar Eryri 2 awr 7 munud 3 eiliad, 2il Tony Hall 2 awr 10 munud 21 eiliad, 3ydd Rob Falconer 2 awr 11 munud 21 eiliad. Yn ras y menywod agored Phoebe Webster Aberystwyth AC enillodd mewn 2 awr 6 munud 33 eiliad, 2il Caryl Davies Sarn Helen 2 awr 44 munud 37 eiliad, 3ydd Elen Jones Pembroke Harriers 2 awr 52 munud 28 eiliad, 1af menywod 35 Alyson Hayes Cardigan RC 2 awr 32 munud 23 eiliad, 2il Ceri Brambley-Tucher Port Talbot 2 awr 35 munud 36 eiliad, 3ydd Alison Griffiths 2 awr 52 munud 8 eiliad, 1af menywod 45 Pauline Williams Port Talbot 2 awr 36 munud 45 eiliad 2il Sue Lloyd Pembroke Harriers 2 awr 39 munud 36 eiliad, 3ydd Jan Bell Pembroke Harriers 3 awr 23 munud 25 eiliad.

Caitlin Page Sarn Helen enillodd ras 1.5 milltir y plant o dan 15 oed mewn 13 munud 4 eiliad ac 2il Haf Burrill Sarn Helen 18 munud 3 eiliad, a cyntaf yn ras y bechgyn dan 12 Iwan Evans Sarn Helen 13 munud 31 eiliad, 28l Jamie Rollins 13 munud 37 eiliad, 3ydd Aiden Jones Carmarthen Harriers 15 munud 19 eiliad. Mare Wyn Owen Sarn Helen yn gyntaf 13 munud 44 eiliad, 2il Sara Jones Sarn Helen 15 munud, 3ydd Seren Angel. Cyntaf yn ras 4 milltir y bechgyn dan 18 oed oedd Teifion Davies 28 munud 21 eiliad, 2il Ryan Williams 30 munud 14 eiliad, a 3ydd Gwydion Williams 40 munud 8 eiliad.

Ras nesaf y clwb yw Ras hwyl Felin Fach ar Medi 25.



# Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

## Pont-ar-sais

Bydd pawb sy'n dewis teithio ar hyd yr A485 i gyfeiriad Caerfyrddin yn mynd trwy le a elwir erbyn hyn yn Pont-ar-sais. Mae'n debygol mai 'Pont y Sais' oedd yr enw gwreiddiol a dyna'r ffurf a geir yn 1765. Yn 1831 digwydd y ffurf 'Pont-yr-Sais'. Nid oes tystiolaeth wedi'i chadw i'n galluogi i adnabod y Sais penodol hwn a rhaid cofio mai croesi Afon Gwili a wna'r bont.

Digwydd 'sais, saeson' yn elfen reit gyffredin mewn enwau lleoedd yng Nghymru ac ar hyd y gororau o gyfnod cynnar. Dyma ddetholiad o enwau sy'n cynnwys yr elfennau hyn yn siroedd Caerfyrddin a Cheredigion: Pant-y-sais (1633) Gwyddgrug; Nant-y-sais (1621) Llanfynydd; Nant Sais (1630) Llangeler; Rhyd-y-sais (1690) Llandysul; Pant-y-sais (1564) Llangynllo; Rhosysaes (1563) Aberteifi; Esgair Saeson (1184) Tregaron.

Tair enghraifft yn unig y gwn i amdanynt o'r elfen 'saesnes' mewn enw lle: Cae'r Saesnes (1626) yn Nhywyn, Meirionnydd; Tir Saesnes (1708) yn Henffordd; Tyddyn y Saesnes (1749) yn Llangwylfan, Sir Fôn.

Atodir 'Sais' hefyd at enwau personol. Mae sôn am Llety Ifan Sais yn Llanddewibrefi (1614); Tir Madog Sais (1584) yng Nghaeo; Gwion Sais (1302/3) yn ardal Llanllwni; Anne Saesnes (1585) yng Nghroesoswallt; Bessy Saesnes (1785) yn Sir Fynwy.

Aelod o'r genedl honno sy'n trigo ar draws y ffin inni a ddynodir gan Sais, Saesnes gan amlaf erbyn hyn; ond gynt gallai ddynodi person a oedd yn siarad Saesneg, neu rywun a oedd wedi ymweld â Lloegr, neu rywun a chanddo riant o Sais, neu rywun a oedd yn edmygu aelod o'r genedl honno.

Erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg roedd Sais wedi datblygu'n gyfenw a gynrychiolir bellach gan ffurfiau megis Sayce, Saice, Saies, Seys.

## Abernawmor

Mae Abernawmor (1579) rhwng Gwyddgrug a Phencader; digwydd Glan Nawmor (1680) yn ogystal yn yr un plwyf sef Llanfihangel-ar-arth. Ceir Glan Nawmor, yn ogystal, ger Cenarth. Mae Nant Nawmor yn Cil-y-cwm ger Llanymddyfri. Mae Nawmor yn enw hynod o brin ar nant neu afon yng Nghymru. Talfyriad o 'mawr' yw'r ail elfen yn 'nawmor' ond yr elfen gyntaf sef 'naw' sy'n anodd. Mae'n debygol fod 'naw' i'w gysylltu â 'nofio, nawf' a gall ddynodi 'rhediad, llif, llysnafedd'. Yn Sir Fynwy ceir nant fechan o'r enw Nawe sy'n tarddu ym Mlaen Nawe ac mae'n siwr bod enw'r nant hon hefyd i'w chysylltu â'r Nawmor a geir yng ngorllewin Cymru.

Yr un gwreiddyn, yn ôl pob tebyg, a geir i enwau afonydd a nentydd megis Noe yn Swydd Derby, Nauia (Sbaen), Naua (yr Almaen), Nauissus (Iwgoslafia). Y tro nesaf bydd cyfle i ystyried yr enw Ceredigion.



## Alec Page Gof



Gwaith metal o safon  
i'r tŷ a'r ardd.

*Dewch i drafod eich syniadau.*

Yr Efail, Barley Mow,  
Llambed.

**01570 423955**

## WILLIAMS

CONTRACT SERVICES CYF

Peiriannau Hirio, Peirianwyr  
Cyffredinol, Gwaith Sylfaen,  
Menage, Tirlunio, Garddio,  
Ffensio, Adeiladu a Gwaith  
Cynnal a Chadw

Symudol: 07896747951

Ffôn: (01559)362575

Ffacs: (01559)363555

Tŷ Mari, Heol Horeb,  
Llandysul SA44 4JN

e-bost: sales@williamscontractservices.co.uk

Y we: www.williamscontractservices.co.uk

## Clecs y Coleg



### Archaeoleg y Mabinogi yn dod i'r Urdd

Bydd plant ysgolion lleol yn perfformio rhan o stori'r Mabinogi ac yn cymryd rhan mewn gwaith maes archeolegol ar safle hanesyddol lleol ddydd Gwener yn rhan o ddathliadau Eisteddfod yr Urdd.

Bydd y plant o Ysgol Aberteifi yn ymweld â safle canoloesol cynnar posib Rhuddlan Teifi, ger Llanwenog, Llambed, yn rhan o weithdy gan yr Urdd sy'n cael ei drefnu gan Theatr Felinfach.

Gyda golygfeydd o stori'r Mabinogi wedi cael eu hail-greu gan fardd, a'r plant yn gwylio gwaith maes archeolegol ac arolygon geoffisegol o'r safle, y nod yw helpu'r plant i gael gwell dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng chwedl a thirwedd.

Mae'r Mabinogi yn gasgliad o chwedlau a storïau hynafol a gofnodwyd gyntaf ar ffurf ddogfennol yn y 13eg ganrif ond sy'n gysylltiedig â thraddodiad llafar llawer cynharach. Mae ysgolheigion yn credu y cafodd y storïau hyn eu trosglwyddo ar lafar i gyfleu gwybodaeth am hanes a llinach, gan ddefnyddio chwedl a hud yn bennaf ond gydag ambell awgrym o bobl a lleoedd go iawn. Mae llawer o'r storïau'n sôn am Frenin chwedlonol Dyfed, Pryderi, ac yn y stori mae Math fab Mathonwy, y bardd Gwydion yn adrodd y storïau i'r Brenin yn ei balas yn Rhuddlan Teifi. Mae dadansoddiadau hanesyddol ac archaeolegol diweddar wedi amlygu arwyddocâd Rhuddlan Teifi, a gofnodwyd yn y 12fed ganrif yn faenor a roddwyd i Abaty Talyllchau gan Rhys ap Gruffudd ond a oedd mor werthfawr fel y cafodd ei feddiannu yn y pendraw gan y Sistersiaid mawr, grymus yn Hendy-gwyn ar Daf.

Cyfarwyddir y prosiect archaeolegol newydd a chyffrous hwn gan y Dr Jemma Bezant o'r Adran Archaeoleg, Hanes ac Anthropoleg ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan.

Meddai Jemma "Roedd rhoddion o dir i dai mynachaid yn gyffredin yn y 12fed ganrif yng Nghymru, ac mae tystiolaeth yn awgrymu yr arferai rhai o'r rhain o leiaf fod yn gyn stadau brenhinol Cymreig. Mae'n debyg fod Rhuddlan Teifi, y cyfeirir ato yn y Mabinogi, yn un o'r stadau canoloesol cynnar hyn oedd yn ddigon pwysig i deilysgu cyfeiriad ato yn y Mabinogi".

Mae arolwg geoffisegol diweddar wedi datgelu safle llocliau ffosog allai fod wedi cynnwys adeiladau'r osgordd frenhinol gynnar hon. "Rydym yn ddifrifol o brin o wybodaeth am y cyfnod canoloesol cynnar hwn - mae rheswm da pam y cânt eu galw'n Oesoedd Tywyll!" meddai Jemma.

Gobeithir y bydd gwaith cloddio yn Rhuddlan Teifi yn ystod yr haf yn rhoi gwell dealltwriaeth inni o archaeoleg y safle.

## Clwb Clonc

### Mai 2010

£25 rhif 489:

Rhun Iwan Wilson,  
Lluest, Llanfihangel-ar-Arth.

£20 rhif 415:

Mrs Margaret Rowlands,  
Crud-yr-awel, Felinfach.

£15 rhif 235:

Mrs Eluned James,  
Ael-y-Bryn, Heol Maestir.

£10 rhif 153:

Mrs Marian Evans,  
Troedyrhiw, Cwrtnewydd.

£10 rhif 303:

Mrs Mary Jones,  
41A Stryd Fawr, Llambed.

£10 rhif 332:

Elinor Jones,  
Penlôn, Gorsgoch.

## Clwb Clonc

### Mehefin 2010

£25 rhif 253:

Alan Jenkins,  
Ceulan, Maestir, Llambed.

£20 rhif 319:

Derrick Jones,  
Dorlan, Alltyblaca.

£15 rhif 486:

Iestyn Jac Wilson,  
Llwynhelyg, Alltyblaca.

£10 rhif 126:

Mrs Elinor Edwards,  
Caemelyn, Llangetho.

£10 rhif 320:

Mrs Gwen Jones,  
Gellidewi-Uchaf, Cwmann.

£10 rhif 179:

Mrs Yvonne Evans,  
Tandderi, Llanwenog.

## T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

### CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac  
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a  
phwerus, Polion a thraciau llenni,  
gwasanaeth torri allwedd i  
pheiriannau cymysgu paent  
Dulux a Leyland.

*Arbenigedd ar garreg eich drws.*

3 Stryd y Bont

Llanbedr Pont Steffan

**01570 423156**

### Cludfwyd Indiaidd

## NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad  
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o  
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambed

**01570 422893 / 422175**



## HWYL YR WYL YN LLANERCHAERON

Wrth i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010 agosáu ac i ganoedd o blant a phobl ifanc Cymru roi sgleini ar y perfformiadau, mae Maes yr Eisteddfod yn prysur godi a'r Pafiliwn heddiw'n cael ei roi yn ei le.

Tir ysblennydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Llanerchaeron ger Aberaeron fydd yn gartref i'r Eisteddfod a gynhelir rhwng 31 Mai a 5 Mehefin a gyda chymunedau ac ysgolion ar hyd ac ar led sir Ceredigion wedi eu gwisgo mewn baneri lliwgar, croesawus mae cryn edrych ymlaen at y digwyddiadau ar y Maes eleni.

"Mae gennym nifer o atyniadau newydd a chyffrous ar y Maes eleni," medd Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Aled Siôn. "Y pafiliwn cystadlu fydd canolbwynt y Maes, fel arfer ac oddi amgylch bydd unedau lliwgar sy'n gwerthu ac arddangos nwyddau, llwyfannau perfformio a theatr byw.

"Eleni fe fydd yr ŵyl, sy'n un o brif wyliau ieuenctid Ewrop yn croesawu nifer o elfennau newydd i'r Maes gan gynnwys Trên Bach y Maes, fydd yn cludo Eisteddfodwyr o amgylch y Maes, GwyddonLe, gweithdai samba a chreffft y DJ a mwy o fandiau byw nag erioed o'r blaen."

Ar fwrdd Trên Bach y Maes, bydd cyfle i Eisteddfodwyr ymlacio wrth iddynt deithio o amgylch Maes yr Eisteddfod a thiroedd bras Llanerchaeron a hynny yng nghwmni tywyswr arbennig fydd â stori ddifyr i'w hadrodd am bob twll a chornel.

Mae'r babell wyddoniaeth wedi cael ei gwedd newid eleni a bydd digon yn GwyddonLe fydd wrth fodd yr hen a'r ifanc. O arddangosfeydd gwyddonol i gystadlaethau, gan gynnwys gweithgareddau yn ymwneud â Chysawd yr Haul wedi ei ariannu gan STFC (Cyngor Adnoddau Gwyddoniaeth a Thechnoleg) gyda chefnogaeth gwyddonwyr o Brifysgol Aberystwyth a'r gymuned yn ehangach.

Cyfuniad hwyliog o weithgareddau ar gyfer Dysgwyr a gweithgareddau llenyddol eu naws fydd yn y Cwtsh Cymraeg. Bydd rhai o gymeriadau Pentre Bach ac eraill yn y gornel stori, murlun geiriau, rhai o awduron mwyaf adnabyddus Cymru'n darllen eu gwaith, gweithdai cyfrifiadurol neu ymlacio gyda phaned o de. Bydd arddangosfa hefyd o holl waith buddugol y cystadlaethau gwaith cartref llenyddol.

A bydd Pentre Mistar Urdd, fel arfer yn fwrlwm o weithgaredd gyda chyfle i ddringo wal ddringo arbennig Gwersyll Glan-llyn, neidio ar drampolîn yr Urdd neu flasu un o'r coctels ffrwythau newydd. Bydd atyniadau eraill yn cynnwys, clown, paentio wyneb, siop, balŵns a chornel liwio. Ac wrth gwrs, yn y Pentre bydd cyfle i gwrdd ag un o gymeriadau pwysicaf Cymru, neb llai na Mistar Urdd!

### Yn y Pafiliwn... am 2.30 o'r gloch bob dydd:

Dydd Llun Defod y Fedal Gyfansoddi  
Dydd Mawrth Defod Medal y Dysgwyr  
Dydd Mercher Defod y Fedal Ddrama  
Dydd Iau Defod y Cadeirio  
Dydd Gwener Defod y Coroni

### Sioeau a Chyngherddau gyda'r nos:

Nos Wener, 28Mai – Nos Fawrth, 1 Mehefin  
Sioe Ieuenctid Ceredigion – Plant y Fflam  
Theatr Felinfach am 8pm  
Bore Sul Gwasanaeth Sul am 10.00, Pafiliwn  
Nos Lun Cystadleuaeth y Gân Actol am 6.30, Pafiliwn  
Nos Fawrth a Nos Fercher, 1 a 2 Mehefin  
Sioe Gynradd, Lledrith Llew am 8.00 yn y Pafiliwn  
Nos Iau Noson o gystadlu Pafiliwn  
Nos Wener Cystadleuaeth Cerddorfeidd am 6.30, Pafiliwn  
Nos Sadwrn Gig gydag Elin Fflur a Fushanti am 9.00, Clwb Rygbi Aberaeron  
Nos Sul Cymanfa Ganu am 5.00pm Capel Tabernacl, Aberaeron

Am docynnau ffoniwch: 0845 257 1639 neu [www.urdd.org/eisteddfod](http://www.urdd.org/eisteddfod)

### Canlyniadau Gwaith Cartref

234: Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl. 6 ac iau, 3ydd cyd Trai a Llanw, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd; 258: Cyfansoddi Cerdd Dant dan 25 oed 1af Hedydd Davies, Aelwyd Llanbedr Pont Steffan; 3ydd Hedydd Davies, Aelwyd Llanbedr Pont Steffan; 303: Barddoniaeth Bl. 2 ac iau; 2il cyd Lauren Hill, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; 305: Barddoniaeth Bl. 5 a 6 3ydd Iwan Williams, Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen; 310: Barddoniaeth Bl. 12 a 13 1af Guto Gwilym, Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi; 2il Elliw Dafydd, Aelwyd Llanbedr Pont Steffan; 3ydd Elliw Dafydd, Aelwyd Llanbedr Pont Steffan; 318: Rhyddiaith Bl. 2 ac iau 3ydd Zachary Wroe, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd; - Gwaith Creadigol 2D Bl. 2 ac iau 3ydd Ruth Davies, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; 20 - Serameg / Crochenwaith Bl. 3 a 4 1af Holly Cooper, Ysgol Gynradd Llanwnnen; 26 - Serameg / Crochenwaith Bl. 9 1af Sion Evans, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 3ydd Dion Mason George, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 48 - 3D Cywaith dan 25 oed (Angh. Arb.) (C) 1af Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 56 - 3D dan 25 oed (Angh. Arbennig) (D), 1af Joshua Hemming, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 59 - Argraffu Bl. 2 ac iau 1af Megan Davies, Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen; 72 - Creu Gwefan Bl. 6 ac iau (Unigol neu Grwp) 1af Morgan Ifan Lewis, Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen; 83 - Mwgwd neu Byped Bl 9 1af Gwawr Hatcher, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 116 - Print Du a Gwyn Bl. 3 a 4 1af Lowri Davies, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; 131 - DVD Oedran Uwchradd 3ydd Clwb Garddio, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 139 - Dylunio a Thechnoleg Bl. 5 a 6 3ydd Meirion Thomas, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; 147 - Creu Artefact Bl 5 a 6 3ydd Grwp Rhodri, Ysgol Gynradd Y Dderi; 149 - Creu Artefact Bl. 9 1af Dewi Uridge, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 150 - Creu Artefact Bl. 10 ac 11 3ydd Rhys Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 156 - CAD / CAM Bl. 7-9 1af Gethin Morgan, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 157 - CAD / CAM Bl. 10 ac 11 2il Carwyn Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 3ydd Elin Wyn Gwyther, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan.



Arwydd Ysgol Llanwnnen.

Ceris Morgan  
yn trin gwallt yn eich cartref



Tori a sychu, steilo a lliwio,  
cwilo a gosod gwallt ar gyfer  
achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol.  
**Ffoniwch: 07738 492613**  
Cwmnï  
ond yn barod i deithio'r ardal.

## Cefn-hafod

Gorsgoch  
01570 434238



Dewch i fwynhau  
mewn awyrgylch  
Gymreig a chartrefol. Cewch  
ddewis eang o fwyd cartref blasus  
a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12  
tan 2:00y prynhawn hefyd.

Croeso cynnes oddi wrth  
Geraint, Eiddwen a'r teulu.

Arbenigwyr mewn bariâu  
symudol at unrhyw achlysur  
allanol a dawnsfeydd ysgubor.

## Mwnci ffwnci



Brodweithio  
a Phrintio Dillad.  
Darparu  
Dillad Gwaith  
a Hamdden.

Sioned Green  
a Mared Jones  
Nantgwyn,  
Heol Llanfair  
Llambod  
01570 423135  
07811917799 /  
07968821035  
mwnciffwnci@hotmail.com

## COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl  
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol  
Llambod, Heol Tregaron,  
Llambod.

01570 422955  
01570 422232



Mae Toriad Taclus  
Wedi newid siop  
Mae ar Heol Caerfyrddin  
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425






Dôl-Mebyd,  
Pencarreg

Annwyl Blant, sut ydych chi gyd? Mae'n braf gen i ddweud fy mod i'n gyffrous ofnadwy! Mae 'Steddfod yr Urdd wedi cyrraedd. Bu Joni Jacô, fy nghefnder a mi yn brysur iawn yn hongian baneri lliwgar o amgylch y tŷ yn barod i'r holl gystadleuwyr ac ymwelwyr. Byddaf yn cystadlu fy hun ar ddydd Llun, ac rwy'n gobeithio wir na fyddaf yn cael cam eleni eto!

Roedd gwaith lliwio'r mis hwn yn arbennig unwaith eto a braf oedd gweld rhai newydd yn rhoi cynnig arni. Mae clod mawr yn mynd i Owen Heath o Lamed, Betsan Mai o Landysul a Rhodri Jac o Dŷ-Mawr. Ond yn dod i'r brig y mis hwn am waith arbennig o daclus mae Naomi Long, Llys Alaw, Cwrtnewydd. Llongyfarchiadau mawr iawn i chi gyd a chofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn a'i ddanfôn ataf erbyn dydd Llun, Mehefin 22ain.


Hwyl am y tro,

*Lincyn Lincyn*



**Enillydd  
y mis!**

**Naomi  
Long**



**Enw:**

**Cyfeiriad:**

## Calendr Clonc

I bawb dan 18 oed



### Cyfle i Ffotograffwyr Ifanc

Bwriada Clonc gyhoeddi Calendr ar gyfer y flwyddyn 2012 gan gynnwys llun gwahanol i bob mis. Y gobaith yw y bydd y calendr ar werth yn nhymor yr Hydref 2011.

Yn wahanol i'r calendr diwethaf a gyhoeddwyd gennym nôl yn yr wythdegau, lluniau lliw cyfoes a gynhwysir y tro hwn. Gofynnwn i bobl ifanc fynd ati i dynnu lluniau gyda'u camerau digidol o olygfeydd yn yr ardal.

Am y flwyddyn nesaf, bydd cystadleuaeth ffotograffiaeth fisol yn Clonc. Gofynnir am lun o olygfa yn yr ardal am yr amser hwnnw o'r flwyddyn.

Yn y rhifyn hwn, rhifyn Gorffennaf a rhifyn Medi, rydym yn chwilio am luniau'r haf. Ac o hynny ymlaen bydd angen lluniau i gynrychioli'r Hydref, Gaeaf a'r Gwanwyn.

Gall y llun fod yn olygfa yn y pentref neu'n olygfa wledig, gall gynnwys anifeiliaid y ffarm neu bobl leol mewn digwyddiad fel carnifal, mart, ffair neu sioe. Anogir chi i fynd ati i dynnu digon o luniau. Bydd hi'n bwysig bod cynrychiolaeth o bob pentref dalgylch Clonc yn y calendr terfynol.

**Rhoddir gwobr arbennig bob mis i'r llun gorau** a bydd panel o Fwrdd Busnes Clonc yn dewis y lluniau mwyaf addas ymhen blwyddyn i'w cyhoeddi yn y calendr.

Wrth gystadlu, bydd pob cystadleuydd yn rhoi'r hawl i Clonc ddefnyddio'u lluniau i'w cyhoeddi yn y calendr. Gwerthir y calendr wedyn er mwyn codi arian i goffrau'r papur bro.

**Derbynnir y lluniau ar ffurf jpg ar ddisg neu e-bost yn unig, heb eu lleihau.** Danfonwch eich disg i Tŷ Cerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET, neu danfonwch y llun yn uniongyrchol drwy e-bost i [cystadleuaeth@clonc.co.uk](mailto:cystadleuaeth@clonc.co.uk) Dyddiad cau derbyn lluniau'r mis hwn yw: **Dydd Iau 17eg Mehefin.**



## Stori Sydyn

### Cyfle i ennill llyfrau gwyh!!

Cyfes o lyfrau byr a bachog yw'r gyfres Stori Sydyn, ac mae'r llyfrau wedi'u hysgrifennu'n benodol ar gyfer oedolion sy'n chwilio am lyfr i'w ddarllen yn sydyn.

Menter ar y cyd rhwng Sgiliau Sylfaenol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru yw'r gyfres ac fe gyhoeddwyd pedair cyfrol newydd eleni.

Hanes blwyddyn lwyddiannus Jamie Roberts, canolwr tîm rygbi Cymru a doctor dan hyfforddiant yn chwarae rygbi gyda'r Llewod yn Ne Affrica a geir yn Jamie: Y Llew yn Ne Affrica. Casgliad o jôcs a storiâu doniol y dyfarnwr rygbi rhyngwladol Nigel Owens yw cynnwys Hiwmor Nigel. Barn y smyglwr cyffuriau rhyngwladol Howard Marks ar Gymru a geir yn Cymru Howard Marks, ac mae cefnogwr tîm pêl-droed Caerdydd a llais y stadiwm, yr actor Ali Yassine, yn sôn am ei fywyd a phêl-droed yn ei hunangofiant, Llais yr Adar Gleision.

Mae cyfle i chi ennill set o'r diweddaraf yma drwy ateb cwestiwn syml iawn!

**Pa ddau berson adnabyddus o'r byd rygbi sydd wedi eu cynnwys yng nghyfres Stori Sydyn eleni?**

Anfonwch yr ateb, eich enw a'ch cyfeiriad i Tŷ Cerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET, neu drwy e-bost i [cystadleuaeth@clonc.co.uk](mailto:cystadleuaeth@clonc.co.uk) Dyddiad cau yw:

**Dydd Iau 17eg Mehefin.**





# Crwydro'r 'Filltir Sgwâr'

gan Ieuan H Roberts

## TAITH CYMDEITHAS EDWARD LLWYD, RHYDCYMERAU, MAI 1af

Roedd teitl y daith sef 'Milltir Sgwâr yr Hen Dŷ Ffarm' wedi denu 35 o aelodau o Gymdeithas Edward Llwyd i ymgynnull yn safle picnic y goedwig ryw filltir i'r de o Rydcymerau, fore Sadwrn 1af o Fai, i flas rhamant yr ardal fel y'i disgrifiwyd gan ddau o wyr llên oedd chysylltiad â'r ardal sef D. J. Williams a David James Jones (Gwenallt).



Ar y dechrau, gan ein bod yn agos i Abernant, ble symudodd D. J. Williams iddo yn 1891 pan oedd yn chwech oed, darlennodd Ieuan, yr arweinydd, ddisgrifiad o'r cyfnod yn Abernant allan o'i lyfr 'Hen Dŷ Ffarm' i roi blas yr ardal inni. Ysgrifennai DJ fel "yr oedd y gegin yn isel a thywyll – rhwng y trawstiau trwchus a'r ystlysau cig moch, y rhwydi silots, ac, yn fynnych raff neu ddwy o wynwns Llydaw, y dryll yn ei le, a'i ffroenau bob amser, yn boenus o gywir at dalcen yr hen gloc druan, basgedi o wahanol faint, bwndel neu ddau o wermod lwyd a gawmil wedi ei sychu, a llawer o drugareddau tebyg, anhepgorion tŷ ffarm, yn hongian o dan y llofft..... weithiau, ar noson stormus, llwyddai ambell ffluwch o gesair gwyllt ddisgyn drwy'r tro yng nghorn y simnai, gan saethu'u hunain ma's, piff-piff-paff-paff yn y fflam.....yn grwt bach, fy hoff eisteddle, am flynyddoedd, yn nhŷ Abernant, ydoedd y fainc neu'r ffwrwm ford fywiog honno y gallwn, wrth eistedd ar ei thalcen eitha, gyda'r osgo leia, beri i'w phen arall godi i fyny ac i lawr, yn yr awyr, fel y mynnwn"

Dechreuwyd cerdded i fyny drwy'r goedwig conwydd o sbrws a llarwydd nes cyrraedd y llwybr ceffyl a arweinai i lawr i gyfeiriad Rhydcymerau heibio olion Esgair Ceir oedd bron wedi eu gorchuddio yn llwyr gan fwsoglau, cartref hynafiaid Gwenallt, ble adroddwyd ei gerdd enwog i Rydcymerau :-

Plannwyd egin coed y trydydd rhyfel	Fforest lle bu ffermydd.....
Ar dir Esgair-ceir a meysydd Tir Bach	Ac ar golfenni, fel ar groesau,
Ger Rhydcymerau.....	Ysgerbydau beirdd, blaenoriaid,
Ac erbyn hyn nid oes yno ond coed,	gweinidogion ac athrawon Ysgol Sul
A'u gwreiddiau haerllug yn sugno'r hen bridd: Yn gwynnu yn yr haul,	
Coed lle y bu cymdogaeth,	Ac yn cael eu golchi gan y glaw a'u sychu gan y gwynt.

Bu peth trafodaeth ar ystyr Esgair-ceir gyda rhai yn amau diffiniad DJ Williams mai Esgair y cae hir yw'r gwraidd.

Wrth gerdded i lawr sylwyd ar y llu o wahanol fwsoglau a dyfai ar gloddiau'r hen ffordd yng nghysgod llaith y goedwig. O gyrraedd yr afon Melinddwr braf oedd gweld lliw melyn llachar, gold y gors, ac ar ynys yn llyn Blaenddol roedd hwyaden Canada yn gorwedd ar ei nyth.

Ym mhentref Rhydcymerau galwyd i mewn i fynwent y Capel i weld bedd DJ a Sian wedi ei wneud o garreg Larvicate. Wrth gerdded dros y bont nodwyd Yr Efail Fach a'r sied arferai fod yn dafarn y Cart and Horses ac yna troi i'r chwith ac ymhen ychydig i'r dde hyd y trac i gyfeiriad Banc Cwm Hywel. Clywyd y gog yn canu ar y ffordd i fyny'r Banc ac o gyrraedd y copa daeth golygfeydd gwych o Fannau Caerfyrddin a Brycheiniog i'r golwg yn y pellter a man da i aros am ginio yng nghysgod y clawdd.

Wedi cinio, troi yn ôl i gyfeiriad Esgairwen hyd ymyl y goedwig, ble yn ei phen draw roedd Ieuan wedi bod yn trashio yr hen lwybr i lawr i Ben y Rhiw Fawr drwy'r goedwig. Roedd caniatâd caredig Mr Edwin Morgan wedi ei gael i ymweld â safle Pen Rhiw Fawr, cartref genedigol DJ Williams sydd bellach yn siediau anifeiliaid ond gyda'r olwyn ddŵr yn dal yno. Mae golygfâ dda o ardal Esgairdawe i'w gweld i'r gogledd a gwelwyd nifer o'r ffermydd y cyfeiriai DJ atynt a Chraig Twrch yn y pellter. Tra'r roeddem yno roedd yr awyr yn ddu iawn i gyfeiriad Llambled a chlywyd taran neu ddwy ond arhosodd yn sych ar y cyfan. Rhaid oedd cerdded yn ôl i fyny drwy'r goedwig cyn troi i gyfeiriad Esgairwen ac edrych i lawr eto ar Rydcymerau. Cerdded yn ôl hyd yr heol i Rydcymerau ac ar yr un llwybr heibio Blaenddol cyn troi i'r chwith hyd ffordd y goedwig heibio Cwm Du Bach yn ôl i'r man cychwyn. Taith o saith milltir a hanner ar ddiwrnod braf, er gwaethaf rhagolygon y tywydd dros fryniau gogledd Sir Gâr.

## CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL  
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?  
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,  
Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm, Morgeisi.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS

Beca Hands BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynnyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.

Gorsaf  
Brawf  
MOT

## GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

\* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio

\* Teiars am brisiau cystadleuol

\* Ceir newydd ac ail law ar werth

\* Batris \* Brecs \* Egsost

\* Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305



## Byd y Campau...



Taith Bangor Clwb Hoci Llanybydder – Mai 2010, Llanybydder 3 Bangor 5. Y sgôrwyd oedd Tracy Evans 2 a Heledd Wilson 1.



Tîm rygbi Llambled dan 7 oed gyda'u medalau ar ôl dod yn ail mewn twrnament yn Llanelli yn ddiweddar.



Merched Llanllwni a Llanybydder yn codi tua £1,300 yn 'Ras am fywyd'

Gwennan Davies, Elen Evans, Nerys Williams, Catrin Davies, Nia Jones, Michelle Vincent, Eiddwen Rees, Morfudd Rees, Stephanie Nash, Marian Davies, Annwen Evans, Ffion Rees.



Tîm rygbi Llambled dan 8 oed gyda'i hyfforddwyr Barrie a Dai ar ôl dod yn ail mewn twrnament yn Llanelli yn ddiweddar.



Arwydd Ysgol Cwrtnwydd



Taith Feicio noddedig Ysgol Llanwnnen er mwyn codi arian tuag at Dŷ Hafan.

**LAS**  
**Recycling Ltd**



Angen Sgip?  
Diwydiannol, Masnachol  
neu i'r cartref.  
Sgip i bob pwrpas  
Rhowch alwad i ni  
ar **01570 421421**

Ffordd Tregaron, Llambled, Ceredigion, SA48 8LT